Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

# CYNLLUN CREU LLEOEDD SHOTTON

place making FLINTSHIRE

Roberts Limbrick

chris jones

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

TMae'r ddogfen hon wedi cael ei chreu ar ran:

**Cyngor Sir y Fflint**

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chreu gan:

| | |
|---|---|
| Rhif Prosiet: | 11186 |
| Adolygiad: | 10 |
| Cyhoeddwyd: | Mai 2025 |

Hawlfraint
Ni ellir copïo nac atgynhyrchu cynnwys y ddogfen hon yn llawn na'n rhannol heb ganiatâd Cyngor Sir y Fflint.
Mae'r holl gynlluniau wedi cael eu hatgynhyrchu o'r Map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi. Cedwir hawlfraint y Goron.

# CYNNWYS

**1. Diben**

Beth yw diben y cynllun creu lleoedd hwn? ........ 5

**2. Pam Cynllun?**

Beth yw Creu Lleoedd? ........ 7

**3. Ein Proses Creu Lleoedd**

Ein Proses Creu Lleoedd ........ 10

**4. Deall y Lle**

Shotton: Deall y Lle ........ 12
Hanes Shotton ........ 13
Tirwedd Polisi a Lleoliad ........ 15
Proffil Cymunedol ac Economaidde ........ 26
Cynnig Masnachol ac Eiddo Gwag ........ 28
Dadansoddiad o Ffryntiad Strydoedd ........ 32
Crynodeb o 'Give my View' ........ 33
Y Lle – Lleoliad a Chefndir ........ 35
Symud ........ 36
Cysylltiadau ........ 37
Asedau Lleol ........ 38
Y Lle ........ 39
Y Porth Dwyreiniol ........ 41
Yr Ardal Ganolog ........ 42
Canol y Dref ........ 44
Harmoni o fewn Canol y Dref ........ 46
Ffurf Drefol a Naws Gaeedig Strydoedd ........ 48
Naws Gaeedig a Mannau Agored ........ 49
Mannau Agored a Gweithgarwch Strydoedd ........ 50
Y Newid yng Nghymeriad Shotton ........ 52
Ardaloedd Preswyl ........ 54
Dadansoddiad SWOT – Lle ........ 56
Dadansoddiad SWOT – Pobl ........ 58

**5. Adeiladu ar ei Sylfaeni**

Blaenoriaethau/Themâu sy'n dod i'r Amlwg ........ 61
Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion Strategol ........ 66
Cyfleoedd Lle a Phobl ........ 68
Cyfleoedd Lle – O Ffordd i Stryd ........ 70
Cyfleoedd Lle – Y Porth Dwyreiniol ........ 74
Cyfleoedd Lle – Yr Ardal Ganolog ........ 76
Cyfleoedd Lle – Canol y Dref ........ 78
Cyfleoedd Lle – Cod Dylunio i Shotton ........ 80
Cyfleoedd Lle – Croesffordd o Gysylltedd ........ 81
Cyfleoedd Lle – Calon Gymdeithasol ........ 82
Cyfleoedd Pobl – Hunaniaeth i Shotton ........ 83
Cyfleoedd Pobl – Gweithgarwch Cymunedol ........ 84
Cyfleoedd Pobl – Byw Llesol ........ 85
Cyfleoedd Pobl – Cymuned Werdd ........ 86
Cyfleoedd pobl – Uwchsgilio'r Gymuned ........ 87
Gweledigaeth o Lwyddiant ........ 88
Ffyrdd o Weithio ........ 93



# 01:
# DIBEN

## BETH YW DIBEN Y CYNLLUN CREU LLEOEDD HWN?

Diben y Cynllun Creu Lleoedd hwn yw gosod y fframwaith anghenion, gweledigaeth, dull gweithredu a chyfleoedd a fydd yn helpu cynllunio a chyflawni gweithgarwch a buddsoddiad yn Shotton fel lle. Er ei fod yn canolbwyntio ar ganol y dref, mae'r Cynllun yn edrych hefyd ar y berthynas ehangach gyda'i gymdogaethau a thrigolion a chydag Afon Dyfrdwy, gwarchodfeydd natur lleol ac asesedau cymunedol a strategol allweddol gerllaw. Mae Shotton yn un o saith o drefi ar draws y sir sy'n cynnwys: Bwcle, Cei Connah, y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn awyddus i dreialu cynhyrchu'r Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Shotton yn gyntaf. Bydd y peilot wedyn yn dylanwadu ar y dull o gynhyrchu chwe Cynllun Creu Lleoedd pellach ar gyfer trefi ar draws Sir y Fflint. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn helpu canfod a dangos angen lleol, a thrwy hynny roi tystiolaeth i sefydliadau darparu strategol er mwyn cydgyfeirio gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal â throsoli cyllid grant ar gyfer prosiectau adfywio yn y dyfodol. Mae hefyd yn dangos ffyrdd o weithio sy'n pontio partneriaethau strategol lleol a fydd yn meithrin datblygu a chyflawni prosiectau ar y cyd a chynaliadwyedd mwy hirdymor tref fel Shotton.





# 02: PAM CYNLLUN?

# BETH YW CREU LLEOEDD?

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn dweud bod creu lleoedd yn: "Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.

Maecreulleoeddynystyriedycyd-destun,swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygiad a'i amgylchedd ehangach. Bydd hyn yn wir am ddatblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu o fewn lle ehangach.

Ni ddylai creu lleoedd ychwanegu cost ychwanegol at ddatblygiad, ond bydd yn gofyn am feddwl craff, aml-ddimensiwn ac arloesol i'w weithredu a dylid ei ystyried ar y cam cynharaf bosibl. Mae creu lleoedd yn ychwangu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fuddion sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad ffiseol ac sy'n ymwreiddio gwydnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio."

Mae Canllawiau Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru 2020 yn trafod yr angen am ddull holistig sy'n ystyried lleoedd cyfan yn hytrach na defnydd o ddarnau penodol o dir neu bob datblygad ar ei ben ei hun. Cafodd y cysyniad o greu lleoedd ei ddatblygu mewn ymateb i deimlad o 'nunlle', o unffurfiaeth o fewn yr amgylchedd adeiledig lle mae datblygiad newydd yn brin o hunaniaeth a chymeriad penodol, teimlad o gymuned na chydberchnogaeth. Mae creu lleoedd wedi tyfu mewn pwysigrwydd wrth i'r cysylltiadau ag iechyd a llesiant gael eu harchwilio a'u deall yn fwy trylwyr.

## Sut mae Cynllun o Gymorth i Greu Lleoedd Da?

Er nad Cynllun Creu Lleoedd yw'r unig ateb i reoli newid a rhoi cyfeiriad i dref fel Shotton, mae'n bwysig fframio dyheadau hirdymor a hefyd meithrin perthynas rhwng y lle, y bobl, a'r gweithgareddau. Y nod yma yw gwneud y cyfan yn rhywbeth mwy na chyfanswm ei rannau. Mae strategaeth a chynllun hirdymor hefyd yn sicrhau bod materion ymarferol wedi cael eu hystyried a bod cynllun y lle yn gallu cynnwys yr amrediad tebygol o'r dibenion gofynnol yn y pen draw. Mae Cynllun yn ymwneud hefyd â chreu lle ac nid dim ond â dyluniad gan ei fod yn ymwneud â chreu a datblygu profiad mae pobl yn teimlo'n gysurus ynddo a'u bod yn cael eu croesawu iddo.

Dylid datblygu gweithgareddau creu lleoedd hirdymor gan ymgynghori â'r gymuned gan mai hwy yw'r arbenigwyr lleol a all gynnig barn a dealltwriaeth werthfawr o hanes, diwylliant, a swyddogaeth yr ardal, neu unrhyw agwedd sy'n golygu rhywbeth i'r bobl.

## Y Gofynion

Ym mis Mai 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ledled Cymru ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd yn unol â chwe egwyddor Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru https://dcfw.org/

Mae disgwyl i Gynlluniau Creu Lleoedd fod yn rhai y gellir eu cyflawni ac iddynt cael eu hadolygu'n rheolaidd a chynnwys gweledigaeth a rennir ar gyfer pob canol tref trwy broses drylwyr o gyd-drafod ac ymgynghori ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid a fydd yn arwain at y canlynol:

- Adnabod problemau mae pob lle yn eu profi gan gynnwys archwilio materion ehangach megis trafnidiaeth, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, tai ac iechyd.

- Dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau i ganol y dref a'i berfformiad.


- Sefydlu data llinell sylfaen ar gyfer canol y dref.

- Adnabod ffin glir sy'n diffinio craidd canol y dref yn ogystal ac ymylon y dref.


- Cysoni â chynlluniau lleol a rhanbarthol, strategaethau, a blaenoriaethau eraill.

- Deall materion fel lefel darpariaeth manwerthu a'r potensial ar gyfer ailganolbwyntio at gynnig cryfach / addasu safleoedd canol y dref at ddibenion eraill lle bo'n addas.

Mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru am Gynlluniau Creu Lleoedd, mae Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu a chytuno ar ddull o gydlynu datblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer 7 o drefi ar draws y Sir: Bwcle, Cei Connah, Y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton. Mae amserlen wedi cael ei chytuno gyda Chabinet Cyngor Sir y Fflint i gyflawni'r gwaith ar gyfer 7 Cynllun Creu Lle mewn 3 cham ar wahân, gyda'r cyntaf yn canolbwyntio ar drefi Bwcle, Treffynnon a Shotton yn 2023-24. Dros y 18 mis nesaf, bydd Cynlluniau Creu Lleoedd yn cael eu datblygu ar gyfer trefi yng ngham 2 y rhaglen waith (trefi Cei Connah a Queensferry) a cham 3 (trefi'r Fflint a'r Wyddgrug ).




*Delwedd o DCFW*




*Delwedd o DCFW*

# 03: EIN PROSES CREU LLEOEDD



# EIN PROSES CREU LLEOEDD

Mae Proses Creu Lleoedd Sir y Fflint wedi mabwysiadu dull o fuddsoddi mewn gwaith desg sydd wedi casglu gwybodaeth gan amrywiol o arbenigwyr mewn masnach, eiddo, ansawdd amgylcheddol, dadansoddi economaidd-gymdeithasol a chyda pwyslais penodol ar seilwaith gwyrdd.

Mae'r Cyngor Sir gyda phartneriaid lleol hefyd wedi arwain at ymgynghori â rhanddeiliaid ac â'r gymuned, gan ddefnyddio cyfuniad o gysylltu wyneb yn wyneb ac yn ddigidol er mwyn sicrhau cael nifer a thrawstoriad digonol o safbwyntiau.

Mae'r dull hwn o ymchwilio ar y cyd i Shotton fel lle wedi cael ei grynhoi'n Gynllun Creu Lleoedd sydd wedi ymateb i anghenion y lle, gan ddangos y ddadansoddiad SWOT, themâu allweddol i'w hystyried sy'n arwain at weledigaeth benodol ar gyfer y lle, set o nodau ac amcanion a fframwaith cyfleoedd. Mae'r fframwaith hwn yn rhoi cyfeiriad ar gyfer troi cyfleoedd yn weithredoedd law yn llaw â phartneriaid strategol a lleol yn ymrwymo i gydgyflawni a gweithio mewn partneriaeth.




### Cam 1 – Casglu Gwybodaeth a Data

- **Asesiad Masnachol**
- **Asesiad Ansawdd Amgylcheddol**
- **Adolygiad Economaidd-Gymdeithasol**
- **Archwiliad Seilwaith Gwyrdd**

### Cam 2 – Gwrando ar Farn y Gymuned a Rhanddeiliaid

- **Ymgynghori â'r Cyhoedd**
- **Ymgynghori â Rhanddeiliaid**
- **Ymchwil i Ganfyddiadau o Shotton**

### Cam 3 – Addasu Gweledigaeth, Blaenoriaethau a Fframwaith y Cynllun Creu Lleoedd

- **Adolygiad Polisi a Strategaeth**
- **Dadansoddi'r Lle**
- **Dadansoddi'r Bobl**
- **SWOT a Themâu**
- **Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion**
- **Fframwaith Cyfleoedd**
- **Gweledigaeth o Lwyddiant**
- **Ffyrdd o Weithio**



# 04:
# DEALL Y LLE

## SHOTTON – DEALL Y LLE

Mae Shotton wedi'i leoli ar Lannau Dyfrdwy, yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gerllaw'r ffin â Lloegr. Mae wedi'i leoli ar hyd Afon Dyfrdwy ac mae'n agos i ddinasoedd Caer a Lerpwl.

Mae Glannau Dyfrdwy yn gasgliad o drefi a phentrefi a oedd yn draddodiadol yn gartrefi i weithwyr y gweithfeydd dur ac ardaloedd diwydiannol eraill. Mae Shotton yn gorwedd yng nghanol y trefi a'r pentrefi hyn, sy'n cynnwys Cei Connah i'r gorllewin, Ewloe i'r de, Sandycroft a Mancot i'r Dwyrain a Garden City i'r gogledd.

Mae Shotton yn ganolfan allweddol i'r ardal, gyda'r prif elfennau siopa a'r orsaf drenau. Mae'r A494 yn rhedeg i lawr ymyl ddwyreiniol y dref ac mae'n cysylltu â Gwibffordd Gogledd Cymru, yr M56 a'r M53. Mae hyn yn ei gwneud yn hawdd i'r trigolion deithio i Lerpwl, Caer a gogledd Cymru i gyd trwy'r rhwydwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Y B5129 yw'r brif ffordd drwy'r dref ac mae'n gwasanaethu fel Stryd Fawr, a chanolfan fasnachol a hamdden y dref. Mae'r dref yn cynnal cysylltiadau cryf ag Afon Dyfrdwy i'r gogledd gyda Llwybr Arfordir Cymru a'r Chester Millennium Greenway sy'n llwybrau hamdden allweddol yn yr ardal.



## HANES SHOTTON

**"Daeth Shotton i fodolaeth yn sgil adeiladu Pont Penarlâg ar draws Afon Dyfrdwy ym 1889 ac adeiladu gwaith dur John Summers o amgylch troad yr ugeinfed ganrif. Dengys map ordnans o 1874 mai ychydig o fythynnod, ysgol i ferched a Phwll Glo Eleanor ar y ffordd i Queensferry oedd yr unig bethau yn Shotton. Wrth i'r gwaith dur dyfu, ehangodd y pentref bach hwn i wneud lle i deuluoedd a oedd yn symud o rannau eraill o'r wlad i gael gwaith yma. Fodd bynnag, daeth y gwaith o gynhyrchu dur i ben yn 1980, gan olygu colled o 6,500 o swyddi. Cafodd Shotton ei heffeithio'n fawr pan gollwyd y diwydiant trwm hwn, ac nid yw wedi adfer yn llwyr o hyd. Mae busnesau wedi agor ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy dros y blynyddoedd, sy'n cyflogi trigolion lleol. Un cyflogwr o'r fath yw'r ffactri Airbus ym Mrychdyn."**

Shotton fel y caiff ei ddisgrifio yn Deall Lleoedd Cymru.



### Datblygiad Hanesyddol

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o leoedd yng Nghymru, nid oes gan Shotton enw Cymraeg, a chaiff ei adnabod yn swyddogol fel Shotton yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ond ymddangosodd yr enw am y tro cyntaf mewn Hen Saesneg fel Cyllingas sy'n deillio o'r gair Cymraeg Celyn. Mae gweddillion o'i gysylltiadau â'i darddiad yn dal i'w gweld mewn rhannau o Shotton. Fodd bynnag, nid yw canol y dref a'r stryd fawr yn dangos fawr ddim, os o gwbl, cysylltiad â'i gwreiddiau hanesyddol o ran ei threftadaeth etymolegol.

Er y gellir olrhain hanes Shotton yn ôl i'r Oesoedd Canol Cynnar, fel llawer o drefi eraill gogledd Cymru, daeth Shotton i amlygrwydd yn y 18fed ganrif, law yn llaw â'r Chwyldro Diwydiannol, pan ddatblygodd mwyngloddio glo yn ogystal â thir ffermio ar y corstiroedd a adenillwyd gerllaw ar raddfa fwy. Dengys map hanesyddol o 1909 strwythur trefol y dref a'i phrif Stryd Fawr y gellir ei adnabod hyd heddiw.

Roedd lleoliad strategol Shotton yn golygu hefyd ei bod wedi dod yn gyffordd rheilffordd, yn cysylltu dwy reilffordd – Arfordir Gogledd Cymru a'r Gororau, ac er i'r ardal gael ei rheilffordd yn 1848, ni chafodd yr orsaf ei hun ei hadeiladu tan 1891. Mae'r orsaf sy'n cysylltu'r ddwy reilffordd hyn yn dal i wasanaethu heddiw fel gorsaf deithwyr ac mae'n gwasanaethu'r hwylus drefi a dinasoedd allweddol yng Nghymru a Lloegr.

## HANES SHOTTON

Mae i Shotton, ynghyd â Chei Connah gerllaw, hanes cyfoethog iawn ynghlwm â datblygiad y Chwyldro Diwydiannol. Yng Nghei Connah mae'r llyfrgell leol yn cynnal "arddangosfa cyswllt treftadaeth Sir y Fflint" o'r ardal leol a'i hanes lle mae'n bosibl dysgu am ddatblygiad y diwydiant glo a dur a oedd yn 1945 yn cyflogi 30% o'r dynion lleol oedd mewn gwaith, a sut roedd hyn yn rheswm allweddol dros dwf Shotton (a Chei Connah).

Mae'r map hanesyddol o tua 1909 yn dangos datblygiad o'r fath, a chyn hyn, mor ddiweddar ag 1895, cyn y diwydiannau cyntaf gael eu hadeiladu, tenau oedd poblogaeth yr ardal.



Y tu allan i'r ganolfan dreftadaeth hon yn y llyfrgell nid oes fawr o dystiolaeth o hanes a datblygiad o'r fath yng nghanol y dref. Mae gwead trefol y stryd fawr yn dal i ddyddio i'w datblygiad yn y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, ond mae wedi dod yn dameidiog ac yn cynnwys nifer o flociau mewnlenwi dros y degawdau dilynol sy'n ymddangos eu bod wedi cael eu hychwanegu heb unrhyw drefn benodol.

Mae Shotton yn cynnwys nifer o adeiladau rhestredig – wyth yn ôl cyfrif yr ymchwil desg, gydag un adeilad rhestredig Graddfa II ar y Stryd Fawr: tafarn y Clwyd sy'n dal i weithredu fel tafarn. Er nad yw wedi ei restru, adeilad arall nodedig ar y Stryd Fawr yw The Central Hotel, sydd bellach yn dafarn JD Wetherspoon – mae tu allan a blaen yr adeilad mewn llawer gwell cyflwr na'r Clwyd. Mae'r Central Hotel wedi sefyll gerllaw gorsaf Shotton ers tua 1920 ac mae'n cynnig cipolwg o orffennol hanesyddol y dref.

Er nad ydynt ar y Stryd Fawr, mae'r adeiladau rhestredig canlynol hefyd i'w gweld o fewn ffiniau Canol y Dref a'r ardal ganolog:

- Yr Hen Orsaf Heddlu (rhestredig Graddfa II), i'r gogledd o'r Stryd Fawr ar Salisbury Street

- Ysgol Babanod Shotton – yn ogystal â'i waliau a ffensys o'i hamgylch – (rhestredig Graddfa II) sydd i'w gweld i'r de o'r Stryd Fawr ar Mostyn Street.



# TIRWEDD A CHEFNDIR POLISI

## CENEDLAETHOL

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Polisi Cynllunio Cymru
- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
- Teithio Llesol Cymru
- Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Canllawiau Creu Lleoedd 2020
- Canol Trefi: Datganiad Sefyllfa 2023

## RHANBARTHOL

- Gweledigaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018-2035
- Strategaeth a Chynllun Pobl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Strategaeth 10 Mlynedd 2023-2033 Gogledd Cymru Actif

## LLEOL

- Cynllun y Cyngor 2022-23
- Cynllun Llesiant 2022-23
- Strategaeth Newid Hinsawdd 2022-30
- Cefnogi Natur yn Sir y Fflint
- Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tai Sir y Fflint 2019-24
- Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

Mae cefndir polisi lle fel Shotton yn bwysig gan ei fod yn dangos y berthynas ag agendâu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan roi cyfeiriad a chysondeb strategol. Mae hefyd yn dangos cyfleoedd a chyfyngiadau strategol lle a'i ddatblygiad.

## CENEDLAETHOL

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy.

Nid yw hyn yn gysyniad newydd i'r system gynllunio gan fod egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi bod yn rhan greiddiol o bolisi cynllunio ers i Bolisi Cynllunio Cymru gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2002. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi cael ei ehangu o dan y Ddeddf Llesiant ac mae'n gofyn am welliant yn y ffordd y gweithredir pob un o bedair agwedd llesiant, sef yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'r Ddeddf Llesiant wedi sefydlu saith nod llesiant a'u bwriad yw llywio gwaith pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

Er mwyn dangos bod ystyriaeth addas wedi ei rhoi i'r nodau llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r 'pum ffordd o weithio' yn y Ddeddf Llesiant. Mae'r rhain yn gofyn am ystyried: cynnwys; cydweithio; integreiddio; atal; a ffactorau hirdymor.

### Polisi Cynllunio Cymru 2018

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. O fewn y ddogfen mae'n diffinio "Creu Lleoedd" fel ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif, ac sy'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.

Yng nghyd-destun y Creu Lleoedd hwn, mae Polisi Cynllunio Cymru yn gweld creu lleoedd fel proses sy'n ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygu a'i amgylchedd ehangach. Nid yw'r ddogfen bolisi yn gweld creu lleoedd fel cost ychwanegol ar ddatblygiad, ond bydd yn gofyn am feddwl craff, aml-ddimensiwn ac arloesol i'w weithredu a dylid ei ystyried ar y cam cynharaf bosibl. ae creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fuddion sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad ffiseol ac sy'n ymwreiddio gwydnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio.




Gall defnyddio uwchgynlluniau, briffiau cynllunio neu gynlluniau bro ategu strategaethau trwy ddarparu manylder ychwanegol a chefnogi gweithredu polisïau cynlluniau datblygu. Wrth ddatblygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau i adfywio a chynyddu atyniad canolfannau manwerthu a masnachol presennol, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â'r sector preifat a chymunedau lleol.

### Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol system drafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd sy'n gwasanaethu Cymru. Mae'n rhoi cyd-destun i nod Llywodraeth Cymru o leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn ceir preifat, ac mae'n cefnogi newid dulliau teithio at gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Adlewyrchir hyn ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, sy'n rhoi creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio. Cefnogir y newid dulliau hwn gan yr hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Cafodd Strategaeth Drafnidiaeth bresennol Cymru, Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, ei gyhoeddi yn 2008. Ers hynny cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n gynyddol ddylanwadol yn y ffordd rydym yn integreiddio teithio llesol â datblygiad newydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i gerdded a beicio fel rhan o'u gweithgareddau bob dydd. Mae cynlluniau Metro hefyd yn cael eu datblygu yn y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd, sy'n cael eu hysgogi gan fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid gweithredu.

### Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Mae Cerdded a Beicio wedi ennill cefnogaeth ers i Lywodraeth Cymru basio Deddf Teithio Llesol (Cymru), a dderbyniodd gydsyniad brenhinol ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr awdurdodau lleol i wella'n barhaus y cyfleusterau a llwybrau, yn rhai newydd a rhai sy'n bod eisoes, i gerddwyr a beicwyr a pharatoi mapiau yn nodi'r llwybrau presennol, a rhai posibl yn y dyfodol, y gallant eu defnyddio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y camau cynllunio a dylunio. Dylid dylunio neu wella'r rhwydwaith teithio llesol i gyrraedd set o safonau'r arferion gorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau:

- Canllawiau Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Canllawiau Statudol ar gyfer Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;
- Y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol.

### Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040

Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod cyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, cyflawni datgarboneiddio a gwrthsefyll newid hinsawdd.

### Canllaw i Greu Lleoedd 2020 – Comisiwn Dylunio Cymru

Mae canllaw Comisiwn Dylunio Cymru wedi'i anelu at bawb sy'n ymwneud â chreu lleoedd llwyddiannus, gan gynnwys y gymuned leol, dylunwyr trefol, cynllunwyr, penseiri, penseiri tirwedd, datblygwyr, cynllunwyr trafnidiaeth, peirianwyr priffyrdd ac ecolegwyr ymhlith eraill. Mae angen i bob proffesiwn a phob unigolyn sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio, datblygu neu reoli lleoedd gydweithio ar bob cam tuag at agenda creu lleoedd gyffredin. Cydnabyddir bod natur lleoedd yn amrywio ar draws Cymru, bod pentrefannau gwledig yn wahanol i ganol trefi, ac y gall coetir fod yn lle, llawn cymaint â sgwâr trefol. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar aneddiadau ar bob graddfa ac ymhob lleoliad sy'n cael eu newid neu eu datblygu o'r newydd.

Mae meysydd sydd angen i greu lleoedd eu hystyried yn cynnwys:

#### Pobl a'r gymuned

Mae'r gymuned leol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion. Ystyrir anghenion, dyheadau, iechyd a lles pob person ar y cychwyn. Mae cynigion yn cael eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu ac/neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.

### Lleoliad

Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd sy'n bodoli eisoes, ac sydd â chysylltiadau da. Mae lleoliad tai, cyflogaeth, hamdden a chyfleusterau eraill yn cael eu cynllunio er mwyn helpu i leihau'r angen am deithio.

### Symud

Mae cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu i ddarparu dewis o ddulliau trafnidiaeth, ac osgoi gorfod dibynnu ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol, diogel sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hintegreiddio'n gadarnhaol.

### Defnyddiau cymysg

Mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgu defnyddiau a daliadaethau yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus bywiog.

### Y Parth Cyhoeddus

Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol, gyda hunaniaeth unigryw. Maen nhw wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn hyblyg gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniad cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maen nhw wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol, ac maen nhw'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau i bawb.

### Hunaniaeth

Mae rhinweddau cadarnhaol, nodedig lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Nodir nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, yn cynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, priodoleddau ffisegol adeiledig a naturiol, ac ymatebir iddynt.

### Canol trefi: datganiad sefyllfa, Mai 2023, Llywodraeth Cymru

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad sy'n nodi'r heriau sy'n wynebu canol trefi a sut y byddant yn helpu i'w hadfywio.

Mae'r datganiad yn agor trwy ddweud bod canol trefi'n wynebu heriau cymhleth sydd weithiau'n unigryw i leoedd penodol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r problemau a wynebir gan drefi yng Nghymru sy'n ei chael yn anodd, yn gallu cael eu priodoli i gyfuniad o ddirywiad yng nghanol y dref a datblygiadau y tu allan i'r dref ar ôl y 1980au. Mae angen i ni gydnabod cymhlethdod y problemau hyn a gweithio gyda'n gilydd ym mhob sector ledled y wlad i adfywio canol ein trefi. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r heriau sy'n wynebu trefi, yn ogystal â'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i osod y sylfeini ar gyfer newid a galluogi cyflawni'n lleol i ddatblygu ein canol trefi fel lleoliadau ar gyfer ystod o wasanaethau, menter economaidd, gwaith ac i fod yn gymunedau sydd wedi'u cysylltu.

Caiff yr heriau sy'n wynebu canol trefi eu diffinio fel:

- Symud gwasanaethau o ganol trefi i'r cyrion
- Materion modelau busnes
- Lleoliadau y tu allan i drefi yn cael eu hatgyfnerthu gan ddibyniaeth ar geir preifat
- Argyfyngau hinsawdd a natur
- Gallu i gyflawni'n lleol

Roedd y datganiad sefyllfa'n amlinellu rhai o Gamau Gweithredu Llywodraeth Cymru.

### Polisïau canol trefi yn gyntaf

Mae tynnu busnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus o ganol trefi wedi cyfrannu at ddirywiad canol trefi. Bydd lleoli neu adleoli'r sefydliadau angor hyn yn strategol i

ganol trefi yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant cwsmeriaid er mwyn cefnogi sector adwerthu cadarn, yn ogystal â chreu galw am wasanaethau eraill. Bydd hyn yn gwneud trefi'n fwy deniadol i fusnesau presennol a newydd, ac ar gyfer mewnfuddsoddi.

### Polisïau ar gyfer datblygiadau y tu allan i drefi a'u cysylltedd â chanol trefi

Rhaid i nod sylfaenol unrhyw bolisi ar gyfer datblygu y tu allan i drefi ymwneud ag annog mantais ariannol a chyfleoedd datblygu tuag at ganol y dref, neu sicrhau bod datblygiadau y tu allan i drefi wedi'u cysylltu'n gymdeithasol ac yn ofodol â chanol trefi. Fodd bynnag, ni all hyn olygu dymchwel neu ailddatblygu datblygiadau y tu allan i drefi, oherwydd nid yw hynny'n ddymunol nac yn amgylcheddol gyfrifol.

### Cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig

Yn ogystal â'r heriau a nodir uchod, bydd pob tref hefyd yn wynebu problemau a chyfleoedd penodol eraill, ac mae deall y cyd-destun lleol yn hollbwysig er mwyn penderfynu pa fath o fuddsoddiad sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol o ran cefnogi llwyddiant tref. Bydd y pethau sylfaenol yn debyg ar gyfer y rhan fwyaf o drefi – fel gwasanaeth bysiau digonol, cynnig gwasanaethau amrywiol, cysylltedd digidol da – ond bydd y ffordd orau o'u darparu a'u blaenoriaethu yn wahanol. Nid oes datrysiad syml, na model sy'n addas i bawb. Felly, mae'n hanfodol cael dull sy'n caniatáu i bob tref ddod o hyd i atebion lleol sy'n manteisio i'r eithaf ar fenter a gwybodaeth leol.

## RHANBARTHOL

### Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Gweledigaeth Twf a Chais Datblygu)

Cyhoeddodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Weledigaeth Twf ar gyfer economi Gogledd Cymru yn 2016 ac iddo'r nodau canlynol:

- Gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth.
- Mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch ar draws y rhanbarth.
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad gan y sector preifat yn y rhanbarth i hybu cynhyrchiant.

Bydd y rhain yn cael eu gwireddu trwy gynlluniau penodol sy'n ymwneud â seilwaith, sgiliau a chyflogaeth a chefnogi twf busnesau. Bydd Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn creu miloedd o swyddi, hybu'r economi, gwella cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu digidol, canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, cefnogi twristiaeth a mwy. Yn fras, y weledigaeth yw tyfu gwerth yr economi 2.8% y flwyddyn i £20 biliwn a chreu dros 120,000 o gyfleoedd swyddi newydd. Mae'r Cais yn cynnwys cyfres o brosiectau o dan wyth rhaglen ac mae prosiectau allweddol yn Sir y Fflint yn cynnwys

cefnogi safleoedd cyflogaeth strategol yn Warren Hall, Brychdyn a'r Porth Gogleddol, Glannau Dyfrdwy a chreu Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch..

## Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018-2035

Mae'r Strategaeth hon yn nodi gweledigaeth ac amcanion a rennir ar gyfer buddsoddiad a gweithgarwch sector cyhoeddus cydlynol yng ngogledd Cymru hyd 2035. Mae'r cyd- ddatganiad o weledigaeth wedi ei nodi isod.

Mae'r Strategaeth yn rhoi arweiniad ar sut ddylid blaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael, ac yn ein helpu i alinio'r broses adfywio â mentrau eraill i gefnogi twf economaidd, gan gynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae'n ceisio sicrhau bod cyfleoedd economaidd ar gael i gymaint o bobl a chymunedau â phosib ar draws y rhanbarth.

**"Erbyn 2035, bydd Gogledd Cymru yn profi llai o anghydraddoldeb, mwy o gyflogaeth, canol trefi wedi'u moderneiddio, gwell cynnig tai, economi ymwelwyr cryfach, economi gwledig gwydn, a gwell iechyd i bobl leol."**

## Amcanion

TMae Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru yn ceisio:

- Lleihau anghydraddoldeb – drwy helpu mwy o bobl i rannu buddion twf yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r rhai gyda'r incwm aelwyd isaf i gael mynediad at gyfleoedd.
- Cynyddu cyflogaeth - creu cyfleoedd am gyflogaeth drwy brosiectau adfywio.
- Moderneiddio canol trefi - drwy adeiladu ar eu swyddogaeth fel canolfannau am gyfleoedd economaidd lleol, darpariaeth gwasanaeth a chynhwysiad cymdeithasol. Adnabod eu swyddogaeth yn yr economi sylfaenol a'u helpu i addasu i newid economaidd.
- Datblygu'r economi wledig - helpu i greu cymunedau gwledig cynaliadwy drwy gael mynediad at gyfleoedd economaidd a mynediad at wasanaethau.
- Gwella'r cynnig tai - drwy sicrhau fod y datblygiad yn digwydd lle mae galw, gan ddarparu opsiynau tai o ansawdd da i drigolion presennol, pobl ifanc a phobl sy'n symud i'r ardal.
- Cryfhau'r economi twristiaid - drwy adeiladu ar y cynnig twristiaid a'r cryfderau sy'n bodoli yn y rhanbarth gan gynnwys y marchnadoedd twristiaeth antur a threftadaeth, ynghyd â darparu lleoliad atyniadol i ddigwyddiadau mawr mewn safleoedd sydd o bwys rhanbarthol megis Parc Eirias a Chae Ras Wrecsam. Drwy annog mwy o ymwelwyr i ogledd Cymru a darparu canol trefi modern, byddwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a ddaw i'n trefi ac sy'n gwario yn yr economi lleol.
- Gwella iechyd pobl leol - drwy greu mannau sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol, drwy ddarparu amgylcheddau a mannau gwyrdd o ansawdd a thrwy drechu tlodi yn ein cymunedau mwyaf eithriedig.

## Golwg ar Shotton

IYng Nglannau Dyfrdwy, mae pocedi sylweddol o amddifadedd yn Shotton a Chei Connah. Mae Cynllun Glannau Dyfrdwy, a ddatblygwyd yn gynnar yn 2017 o nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd yng Nglannau Dyfrdwy:

1. Twf economaidd
2. Trafnidiaeth
3. Tai
4. Sgiliau a chyflogaeth
5. Yr Amgylchedd.

Bydd gweithredu tuag at y rhain yn cael ei gyflawni trwy gymysgedd o ymyraethau strategol o Fargen Twf Gogledd Cymru yn ogystal â phrosiectau adfywio mwy lleol gan gynnwys:

- Parhad y rhaglen ardal adnewyddu tai i wella'r stoc tai.
- Datblygiadau tai gan gynnwys tai rhent cymdeithasol a fforddiadwy.
- Gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth lleol i wella mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau.
- Ymyraethau i eiddo yng Nghanol y Dref i leihau'r ôl-troed manwerthu a chynhyrchu gweithgarwch newydd.
- Agor mynediad at afon Dyfrdwy.
- Gwelliant i amgylchedd strydoedd.

**Strategaeth Pobl a Chynllun Cryfach Gyda'n Gilydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yw creu gogledd Cymru iachach, gyda chyfleoedd i bawb wireddu eu llawn botensial. Golyga hyn y dylai pobl gogledd Cymru, dros amser brofi bywyd hirach ac o ansawdd gwell.

Caiff y weledigaeth hon ei harwain a'i llywio gan gynllun Llywodraeth Cymru "Cymru Iachach", dogfen drosolwg strategol y Bwrdd, "Byw'n Iachach, Aros yn Iach", a'u Strategaeth Gwasanaethau Clinigol esblygol yng ngogledd Cymru.

Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi sut y bydd y Bwrdd yn gwneud hyn trwy flaenoriaethau meysydd penodol i'w datblygu a gaiff eu cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Yr hyn roedd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio arno'n bennaf yyn 2022/23 oedd:

- Dychwelyd yn llawn at fusnes craidd, gan gynnwys mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cysylltiedig â'r panedmig,
- Cadarnhau gwaith datblygiadol sydd eisoes wedi cychwyn ond heb ei orffen eto, gan gynnwys gwaith i gyflawni tuag at fframwaith Ymyriad Wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru.

**Gogledd Cymru Actif, Strategaeth 10 Mlynedd – 2023-2033**

Gogledd Cymru Actif yw'r bartneriaeth gweithgarwch corfforol a chwaraeon gyntaf i fyndyn fyw yng Nghymru. Rydym yn cynnwys ystod eang o sefydliadau sydd wedi dod ynghyd i gytuno i weithio'n wahanol er mwyn cyflawni diben a rennir o gym unedau mwy actif yng ngogledd Cymru.

Mae'n cefnogi'n gryf ddull systemau cyfan o gyflawni gogledd Cymru mwy actif, gan adeiladu ar enw da'r rhanbarth am gydweithio ar draws sectorau i gyflawni newid systemau cyfan.

Mae yn golygu gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i ddeall yr her ac adnabod a phrofi atebion gan weithio ar draws ffiniau sectorau, sefydliadau a lleoedd i gyflawni gwelliannau hir eu pharhad i iechyd a llesiant.

Ei weledigaeth yw "pawb yng ngogledd Cymru yn fwy actif, yn byw bywydau iachach a hapusach". Ei genhadaeth yw "pawb yng ngogledd Cymru yn cael mynediad i fannau a lleoedd diogel a chyfleoedd amrywiol i fod yn actif bob dydd".

Mae ei fframwaith gweithredu'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:

- Pobl Actif
- Amgylcheddau Actif
- Cymdeithasau Actif
- Systemau Actif
- Active Societies
- Active Systems

**LLEOL**

**Cynllun y Cyngor, 2022-23, Cyngor Sir y Fflint**

Caiff y blaenoriaethau ar gyfer Sir y Fflint fel sir eu gosod gan y Cyngor a'i bartneriaid sector cyhoeddus lleol. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cyfuno'i adnoddau er budd Sir y Fflint. Gan weithio'n unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid sector cyhoeddus lleol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd, gan rannu cyd-flaenoriaethau a chyfuno adnoddau er budd Sir y Fflint, gyda'r nod cyffredinol o wella llesiant lleol.

Mae'r Cynllun yn rhestru blaenoriaethau'r Cyngor o dan chwe phrif thema:

- Tlodi
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Cymdeithas ac Amgylchedd Gwyrdd
- Economi
- Llesiant Personol a Chymunedol
- Addysg a Sgiliau

Bydd dull Creu Lleoedd yn ymwneud â llawer o themâu'r Cyngor a amlinellir uchod, ond bydd pwyslais allweddol mewn lleoedd fel Shotton ar yr economi. O fewn y thema hon, mae'r Cyngor yn dymuno adfywio ac ailddyfeirio canol ei dref, gyda'i lwyddiannau yn cael eu mesur yn ôl y canlynol:

- Monitro iechyd a bywiogrwydd canol trefi i gefnogi rheolaeth effeithiol a phenderfyniadau buddsoddi busnesau – erbyn Mawrth 2023
- Annog a chefnogi buddsoddiad mewn adeiladau canol trefi, yn enwedig i hyrwyddo defnyddiau mwy cynaliadwy – erbyn Mawrth 2023
- Mae cyswllt hefyd â Thai Fforddiadwy a Hygyrch
- Gwella'r amgylchedd mewn canol trefi – erbyn Mawrth 2023
- Cefnogi twf mentrau cymunedol mewn lleoliadau yng nghanol trefi – erbyn Mawrth 2023.

### Cynllun Llesiant Sir y Fflint a Wrecsam 2022-23

TY Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw lle mae sefydliadau sector cyhoeddus ar draws Sir y Fflint a Wrecsam yn dod at ei gilydd. Mae'n gweithio gyda'n cymunedau i newid y ffordd rydym yn gwneud pethau, er mwyn sicrhau y byddwn yn gallu wynebu'r heriau sydd o'n blaenau megis yr argyfwng hinsawdd a natur, a sut y byddwn yn sicrhau iechyd meddwl da a llesiant i bawb.

Prif faes thematig a chanlyniadau y Cynllun Llesiant yw "Ein Cymunedau" sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio sgiliau a doniau pawb i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur ac adeiladu economi leol gref, deg a chynaliadwy. Mae'r Cynllun yn datgan bod yn rhaid iddo gipio'r cyfle i adeiladu economi leol gynaliadwy, gan weithio ar draws ein rhanbarth ac ar draws y ffin i dyfu busnesau lleol, gwella bioamrywiaeth a chanolbwyntio ar datblygu seiliau a seilwaith gwyrdd. Bydd hyn yn helpu lliniaru effeithiau newid hinsawdd, addasu'n cymunedau i effeithiau hinsawdd sy'n newid a chefnogi gwell canlyniadau llesiant.

Mae hefyd yn nodi sgiliau gwyrdd fel cyfran sylweddol o farchnad swyddi'r dyfodol ac felly mae angen inni roi'r cyfle i bawb yn ein cymunedau i fanteisio ar y cyfleoedd anferthol ac amrywiol yn y sector hwn. Caiff teithio llesol hefyd ei weld fel rhywbeth sy'n allweddol er mwyn manteisio ar y nifer a'r amrywiaeth sylweddol o gyfleoedd cyflogaeth sefydlog, sy'n talu'n dda, a fydd ar gael, gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn hyrwyddo'r syniad o'r gymdogaeth 20 munud lle mae swyddi, cyfleusterau a siopau yn haws eu cyrraedd heb eistedd mewn tagfeydd.

### Strategaeth Newid Hinsawdd, 2022-2030, Cyngor Sir y Fflint

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r datganiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus ddod yn garbon niwtral erbyn 2032, ac ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd Aelodau'r Cabinet gynnig i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer Newid Hinsawdd a fydd yn gosod nodau a chamau gweithredu allweddol ar gyfer greu sefydliad carbon niwtral. Roedd y Cyngor yn gyfrifol am allyriadau nwyon tŷ gwydr o 46,434 tCO2e yn 2018/2019 o'r gwasanaethau mae'n eu darparu, yr adeiladau mae'n eu gweithredu a'r nwyddau/gwasanaethau mae'n eu prynu. Mae nifer o gamau y gall y Cyngor eu cymryd i leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr fel sefydliad ac mae'r ddogfen hon yn dangos nodau a gweithredoedd camau cyntaf y Cyngor at ddod yn sefydliad carbon niwtral.

Mae amcanion y thema yn canolbwyntio ar adeiladau, symud a thrafnidiaeth, caffael, defnydd tir ac ymddygiad. Mae'r camau o nodwyd o fewn pob un o'r themâu hyn wedi ystyried barn Aelodau, y cyhoedd, a gweithwyr y Cyngor er mwyn creu llwybr sy'n uchelgeisiol a chyraeddadwy gyda'r buddsoddiad a'r adnoddau iawn, cydweithio ac arweiniad.

### Cefnogi Natur yn Sir y Fflint – Ein cynllun i gynnal a gwella bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yw ail gynllun Sir y Fflint ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth yn Sir y Fflint. Gwnaeth y Cyngor gynnydd da mewn 67% o'r ardaloedd targed o dan ei gynllun 2016-2019 ac mae'n symud ymlaen â'n gwaith ers 2020 mewn sefyllfa gryfach ar ôl parhau i sicrhau nifer o grantiau ar gyfer gweithredu dros natur a chynyddu swydd ein Swyddog Bioamrywiaeth i fod yn llawn-amser. Mae Sir y Fflint wedi chwarae rhan allweddol mewn sicrhau parhau'r Bartneriaeth Natur Ranbarthol (Bionet) a fydd yn arf pwysig wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, o ran gweithredu targedau o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol, blaenoriaethau o'r Datganiadau Ardal ac amcanion llesiant.

Mae'r cynllun yn trafod glaswelltir a thir comin, coetir a choed a hefyd bwysigrwydd seilwaith wledig a gwyrdd sy'n ffurfio rhan o gynlluniau creu lleoedd.

**Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tai Sir y Fflint, 2019-2024**

Mae'r Cyngor wedi nodi tair blaenoriaeth strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a fydd yn eu barn hwy yn darparu'r fframwaith iawn ar gyfer darparu cartrefi, cefnogi pobl a hyrwyddo cynaliadwyedd lle. Y rhain yw:

• Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn.

• Blaenoriaeth 2: Rhoi cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn aros yn y math iawn o gartref; a

• Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi.

Mae blaenoriaethau'r Strategaeth Tai yn cydgyfeirio â'r rheini a bennir yn ein Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Lleol, yn ogystal â'r Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Cefnogi Pobl. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnnwys;

• Rhwystro digartrefedd;

• Bod, ac y bydd, llety addas ar gael i bobl sydd, neu a allai ddod, yn ddigartref;

• Bod cymorth boddhaol ar gael i bobl sydd, neu allai ddod, yn ddigartref.

Gweledigaeth y Strategaeth Tai yw:

*"Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol i arwain a darparu'r math iawn o dai o ansawdd uchel a'r cymorth mwyaf addas i ddiwallu anghenion tai ein poblogaeth."*

**Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030**

- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dilyn ymlaen o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd (2000-2015) ac mae'n ymwneud â'r cyfnod 2015 i 2030. Mae'r Cyngor wedi paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn unol â Chanllawiau a Pholisi Cynllunio cenedlaethol. Mae'r cynllun yn cynnig fframwaith cynllunio clir ar gyfer defnydd tir i ymdrin â phroblemau a chyfleoeddd sy'n wynebu Sir y Fflint, gan anelu i roi sicrwydd i'w chymunedau a sail gadarn a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio.
- Nod y cynllun yw galluogi cyflawni datblygu cynaliadwy mewn modd sy'n cydbwyso'r holl ofynion Llesiant mewn ffordd synhwyrol a chymesur, er mwyn galluogi'r datblygiad iawn i ddigwydd yn y lleoedd iawn.
- Mae polisïau (strategol a manwl) a chynigion y cynllun wedi eu trefnu mewn modd thematig sy'n cynnwys y canlynol:
- Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy
- Cefnogi Economi Lewyrchus
- Diwallu Anghenion Tai
- Gwerthfawrogi'r Amgylchedd.
- Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol yw: "Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â phobl a lleoedd. Mae'n ceisio creu cydbwysedd cynaliadwy a pharhaol rhwng anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Sir y Fflint a'i thrigolion, trwy wireddu ei safle unigryw fel porth rhanbarthol ac ardal ar gyfer buddsoddi economaidd, gan warchod ei threftadaeth hanesyddol ddiwylliannol gref a'i hamgylchedd naturiol."
- Caiff Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol eu diffinio

fel a ganlyn:

- Gwella Bywyd Cymunedol
- Cyflawni Twf a Ffyniant
- Gwarchod yr Amgylchedd.
- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi cyfres o bolisïau cynaliadwy y mae angen i'r Cynllun Creu Lleoedd ymateb iddynt. Y rhain yw:
- Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy
- Cefnogi Economi Lewyrchus
- Diwallu Anghenion Tai
- Gwerthfawrogi'r Amgylchedd.
- Mae creu lleoedd cynaliadwy yn egwyddor bwysig sy'n cadarnhau strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff lleoedd cynaliadwy eu creu o gydbwysedd o nodweddion cyfeillgar i'r amgylchedd, bywiog yn economaidd, a chynhwysol yn gymdeithasol, ac iddynt y nod o fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r trigolion presennol.
- Nod lleoedd o'r fath yw eu bod yn cyflawni'r canlynol:
- Diwallu anghenion holl aelodau eu cymuned;
- Cynnig mynediad at gyfleoedd;
- Sicrhau bod gwasanaethau, seilwaith a chymorth ar gael;
- Darparu amrywiaeth o dai fforddiadwy o ansawdd uchel,
- Eu bod yn gydnerth ac yn gallu addasu i newid;
- Cynnwys datblygiadau a llecynnau o ansawdd uchel;
- Unigryw gyda synnwyr o le;
- Deniadol, cymdeithasol, hygyrch, gweithgar, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar;
- Wedi ystyried materion byd-eang a lleol;
- Ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygu a'i amgylcheddau ehangach.

# PROFFIL CYMUNEDOL AC ECONOMAIDD

**Mae 7500 o bobl yn byw yng nghymuned Shotton**

Cyfran uwch o bobl 0-19 oed (23.7%) ac yn y grŵp oedran 20-34 (20%) o gymharu â chyfartaledd Cymru, ond cyfran is o'r rhai 65+ oed (17.1%)

**Mae 96% o drigolion Shotton yn disgrifio eu hunain fel 'Gwyn', sy'n dangos cyfran uwch na chyfartaledd Cymru sydd â 93.8% yn disgrifio'u hunain fel 'Gwyn'**

Mae cyfran sylweddol is o drigolion Shotton yn gallu darllen Cymraeg (7.1%), ei siarad (7.5%) neu ei hysgrifennu (6%) na phoblogaeth gyffredinol Cymru sydd â'r sgiliau hyn (17.3%, 17.8%, a 15.2%)

**Effeithir yn anghymesur ar y stryd fawr gan ymddygiad gwrth-gymdeithasol (28 o ddigwyddiadau) o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (20). Mae dwyn o siopau a throseddau treisgar a rhywiol hefyd yn eithaf cyffredin ar 48 digwyddiad o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 40 trosedd. O gymharu â Bwcle, mae Shotton wedi cael nifer sylweddol o ddigwyddiadau sylweddol dros y 12 mis diwethaf.**

Mae'r gyfran o berchentyaeth yn Shotton (53.8%) yn sylweddol is yn Shotton nag yng Nghymru ar gyfartaledd (66.1%); cyfran uwch o aelwydydd yn byw mewn llety rhent cymdeithasol (26.7%) o gymharu â chyfartaledd Cymru (16.5%).

**Cyfran uwch o gartrefi 1 a 3 ystafell wely, ond dros hanner cyfartaledd Cymru am gartrefi o 4 ystafell wely neu fwy.**

Mae 41.1% o bobl yn graddio eu iechyd fel da iawn o gymharu â 46.2% o bobl Cymru, gyda 2.2% yn graddio eu iechyd fel gwael iawn o gymharu â 1.7% o boblogaeth Cymru.

**Mae'r gyfran o aelwydydd heb gar yn Shotton (27.7%) yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (19.4%); y ffurf fwyaf cyffredin o deithio i'r gwaith yn Shotton yw â char neu fan (57.5%) gyda Shotton yn dangos cyfran uwch o unigolion yn teithio i'r gwaith â beic (5.2%) gymharu â Chymru gyfan (1.1%).**

Mae 56% o bobl yn teithio llai na 10km i'r gwaith o gymharu â 36% o boblogaeth Cymru, gyda dim ond 12% yn gweithio o gartref o gymharu â 26% o boblogaeth Cymru.



creu lleoedd SIR Y FFLINT

# PROFFIL CYMUNEDOL AC ECONOMAIDD

**Dengys yr ystadegau fod y nifer o drigolion yn Shotton sydd ar lefelau uwch neu mewn galwedigaethau proffesiynol yn sylweddol is nag yng Nghymru ar gyfartaledd. Dim ond 6.7% o boblogaeth Shotton sydd wedi disgrifio'u hunain fel Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion o gymharu â Chymru gyfan (18.2%).**

Mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth waith yn Shotton (17%) yn cyfrif am swyddogaethau gweithredu prosesau, ffatrïoedd a pheiriannau o gymharu â 7.9% yng Nghymru.

**Ymddengys fod cyfran yr economaidd weithgar (ac eithrio myfyrwyr) yn Shotton (50.8%) yn is nag yng Nghymru ar gyfartaledd (54.4%). Mae'r economaidd anweithgar yn Shotton yn cyfrif am 40% o'r boblogaeth sy'n is na'r 43.5% yw ar gyfer Cymru gyfan.**

Mae gan Shotton gyfran uwch o unigolion sy'n ddi-waith (5%) o gymharu â chyfartaledd Chymru (4.6%), a Chymru a Lloegr (4.9%). Mae'r gyfran o drigolion Shotton sy'n economaidd anweithgar (18%) oherwydd salwch neu anabledd hirdymor yn sylweddol uwch o gymharu â Chymru gyfan (13.6%).

**Dengys Shotton lefelau uwch o unigolion 16+ oed heb ddim cymwysterau (28%) o gymharu â chyfartaledd Cymru (19.9%). Roedd gan 15% o drigolion Shotton Lefel 2 fel eu lefel uchaf o gyrhaeddiad o gymharu â 14.4% yng Nghymru gyfan. Dangosodd Shotton lefelau uwch o brentisiaethau fel eu lefel uchaf o gyrhaeddiad (8%) o gymharu â Chymru gyfan (5.6%). Mae gan Shotton gyfran sylweddol is o drigolion gyda chymwysterau lefel 4 neu uwch (19%) o gymharu â Chymru gyfan (31.5%). Gallai hyn fod wedi ei briodoli i fynediad cyfyngedig at gyfleusterau addysg bellach ac addysg uwch yn Sir y Fflint.**

# CYNNIG MASNACHOL AC EIDDO GWAG

Mae'r Stryd Fawr wedi ei lleoli ar brif ffordd y B5129, sydd, ynghyd â'i hagosrwydd at orsaf drenau Shotton, yn rhoi mynediad hawdd i drigolion lleol a'r ardal o gwmpas. Mae hyn yn chwarae rhan bwysig yn iechyd y Stryd Fawr, sydd â dalgylch ehangach ac felly'n gweithredu fel Canolfan Ardal allweddol i boblogaeth fwy na Shotton yn unig.

Mae'r Stryd Fawr o fewn Ffin Canol y Dref yn gryno a gellir ei cherdded o un ben i'r llall mewn llai na 450m. Ymddengys ei bod mewn iechyd da (sy'n golygu eu bod yn cael ei defnyddio'n helaeth ac yn ymddangos yn fywiog) gyda'r mwyafrif o unedau siopau wedi eu meddiannu, gan gynnig cymysgedd dda o fanwerthwyr, mathau o siopau a busnesau gyda chynrychiolaeth rhai manwerthwyr cenedlaethol, fel Iceland, Fferyllfa Boots, JD Wetherspoon, Banc HSBC, yn ogystal â siopau annibynnol lleol.

Mae'r Stryd Fawr yn cynnig amrywiaeth yn ogystal, o fusnesau A1, A2 ac A3 – gyda rhai caffis ar ei hyd-ddi, ynghyd ag ychydig o dafarnau a siopau cludfwyd.

Mae cyfraddau eiddo gwag yn isel. Yn ystod yr ymweliad â'r Stryd Fawr, dim ond deg o unedau a nodwyd fel rhai gwag. Roedd nifer ohonynt ag arwydd I'w Osod, roedd eraill â gweddillion o fusnesau blaenorol ond yn amlwg wedi cau i lawr. Roedd unedau eraill a ymddangosai eu bod wedi agor yn ddiweddar fel busnesau newydd, sydd o bosibl yn arwydd fod eiddo gwag yn cael ei rentu drachefn yn weddol gyflym.

### Oriau agor masnachol

Mae'r safle ar y brif ffordd gysylltiol yn arwain at Shotton yn gweithredu fel Canolfan Ardal leol i nifer helaeth o aneddiadau, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y nifer ac amrywiaeth o siopau a gwasanaethau, gan gynnwys tri banc cenedlaethol sy'n dal yn bresennol ar y Stryd Fawr – rhywbeth sy'n dod yn eithaf prif yn enwedig i drefi o faint Shotton (trefi sydd â llai na 10,000 o drigolion).

.Ar gyfartaledd, mae'r siopau dydd yn agor am 9am, ac amser cau yn amrywio'n fawr drwy gydol y prynhawn gyda'r cigyddion a'r pobyddion annibynnol y cyntaf i gau yn gynnar yn y prynhawn. Ymddengys fod y siopau annibynnol lleol yn gyson iawn ag ymddygiad eu sail cwsmeriaid o safbwynt yr oriau agor a'r gwasanaethau a gynigir.

Mae'r economi gyda'r nos yn canolbwyntio'n bennaf o gwmpas y farchnad tafarnau a siopau cludfwyd gydag amserau cau yn amrywio o 11pm yn ystod yr wythnos i 1am ar benwythnosau.

Mae rhai canghennau llai o frandiau cenedlaethol fel Iceland a B&M ar y Stryd Fawr, fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o siopau mwy i'w cael ar Barc Siopau Glannau Dyfrdwy nad yw ond hanner milltir i ffwrdd ac sy'n cynnig oriau agor hirach.opening hours.

### Gwerthoedd Ardrethol

Rydym wedi cymharu'r ardrethi sylfaenol a fabwysiadwyd yn Shotton â lleoliadau cystadleuol gerllaw, lle mae meddianwyr yn debygol o ystyried a chymharu wrth benderfynu gweithredu busnes yn yr ardal. Mae'r cyfraddau sylfaenol a weithredir ar draws y tri lleoliad yn weddol gyson gyda'r Wyddgrug â'r amrediad uchaf o ystyried ei ddeinameg marchnad cryfach. Mae'r tystiolaeth gymharol a gafwyd yn amlygu bod lefel sylweddol o stoc yn gostwng islaw'r trothwy £12,000 lle mae meddianwyr yn elwa o ryddhad ardrethi busnes ac felly mae safleoed yn dod yn llawer mwy fforddiadwy a hygyrch.

| Siopau / Tr2 ITZA | Swyddfeydd / Tr2 | |
|---|---|---|
| Bwcle | £17-£19 | £5.5-£9 |
| Shotton | £13-£18 | £5.5-£8 |
| Treffynnon | £15-£18 | £5.5-£8 |
| Yr Wyddgrug | £17-£28 | £6-£10 |
| Y Fflint | £15-£18 | £5.5-£8 |

## Rhenti Busnes a Chymariaethau

Ychydig iawn o eiddo sydd wedi cael ei osod o'r newydd yn Shotton dros y blynyddoedd diwethaf, ac o'r herwydd mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar farchnadoedd cyfagos Glannau Dyfrdwy, Cei Connah a Garden City. O'u dadansoddi, roedd trafodion manwerthu yn dangos amrediad tynn o rhwng £11-13/Tr2 ar sail cyfradd safonol, fodd bynnag oherwydd y sail gyfyngedig o dystiolaeth gallai'r adrethi hyn fod wedi eu hystumio gan leoliad mwy gweithredol Glannau Dyfrdwy.

Wrth gael eu hystyried ar sail Parth A (In terms of Zone A – ITZA), dengys gosodiadau manwerthu amrediad o £17-25/Tr2 ac enillir y rhenti hyn ar leoliadau manwerthu lleol ac ar y brif Stryd Fawr, a oedd yn hawliau adrethi o £20-25/Tr2, sy'n gymaradwy â Bwcle a Threffynnon.

Caiff yr asesiad manwerthu ei gefnogi gan yr asesiadau gwerth trethadwy ar draws Shotton, Bwcle, Treffynnon a'r Fflint, gyda phob un yn awgrymu cyfraddau sylfaenol tebyg iawn yn cael eu mabwysiadu ar draws y lleoliadau hyn, gan amlygu bod y marchnadoedd manwerthu lleol llai i gyd yn perfformio'n weddol gyson â'i gilydd.

Mae nifer cyfyngedig o weithredwyr cenedlaethol megis B&M, The Range, KFC a Lidl i'w cael ym Mharc Siopau Glannau Dyfrdwy.

Mae marchnad swyddfeydd Shotton yn fach iawn ac wedi ei gyfyngu i alw lleol gwan, ac o'r herwydd mae'r rhan fwyaf o'r stoc uwchben unedau manwerthu sydd wedi eu trosi neu ar loriau uwch adeilad o'r fath, gydag ychydig iawn o stoc a adeiladwyd i'r diben. O'r herwydd, mae'r stoc swyddfeydd yn tueddu i fod yn llai ac wedi dyddio heb fawr o apêl i weithredwyr mwy. Mae parc busnes ar raddfa fawr a adeiladwyd i'r diben yn Ewloe yn darparu llety swyddfa hawdd ei gyrraedd i'r ardal.

## Arenillion a Chymariaethau Masnachol

Mae arenillion masnachol yn Shotton yn amrywio rhwng 8% a 11%; ar gyfer y stoc buddsoddi cyffredinol, gydag 8% yn adlewyrchu buddsoddiadau mwy sefydlog a'r 10% yn adlewyrchu adeiladau mwy hanesyddol gyda chyfamodau a thelerau prydlesu llai ffafriol.

Ymddengys fod arenillion yn weddol gyson ar draws y sectorau swyddfeydd a siopau, gyda buddsoddwyr yn gwneud lwfansau am gyfamodau tenantiaid, telerau prydlesu wrth werth a risg buddsoddi cyffredinol.

Ymddengys fod arenillion mewn trefi cyfagos ac ar draws marchnad ehangach Sir y Fflint yn adlewyrchu rhagolygon tebyg lle mae stoc gwaelach yn ennill tua 10% a buddsoddiadau cryfach ac iddynt risg is cyn ised â 8%.


Ac eithrio gwerthiant Parc Manwerthu Glannau Dyfrdwy, mae galw gan fuddsoddwyr yn Shotton gan fuddsoddwyr lleol / rhanbarthol, yn hytrach na chronfeydd buddsoddi cenedlaethol a byd-eang. Mae cronfeydd buddsoddi mawr yn tueddu i ganolbwyntio ar ardaloedd busnes canolog lle mae marchnadoedd wedi cael eu profi'n fwy. Swydd Gaer yw'r farchnad agosaf sy'n debygol o ddenu'r math hwn o fuddsoddi mewnol.

## Cymysgedd o Ddefnyddiau a Gweithgareddau

Dengys y siartiau ar y dde y gymysgedd o ddefnyddiau a gweithgareddau o fewn ffin Canol y Dref. Dengys Ffigur 16 inni bwyslais cryf y Stryd Fawr ar wasanaethau sy'n cynrychioli iechyd a harddwch, gwerthwyr tai, banciau, gwasanaethau proffesiynol eraill a siopau cludfwyd. Caiff y sector hwylustod ei chynrychioli gan Iceland, cigydd (bellach wedi cau) a rhai siopau hwylustod llai. Nid yw siopau cymhariaeth ond yn cynrychioli pumed ran o ganol y dref gyda B&M, Savers a siopau annibynnol llai.


Dengys dadansoddiad pellach yn Ffigur 15 fod 14 o ddefnyddiau canol y dref yn iechyd a harddwch sy'n cynnwys siopau trin gwallt, parlyrau ewinedd, tylino ac sy'n cynnwys 14% o gynnig ardal gyfan canol y dref. Mae bylchau amlwg mewn dillad a ffasiwn, a thrydanol, sy'n anffodus yn gyson â chanol tref o'r maint hwn oherwydd bod y cynhyrchion hyn wedi eu lleoli ar barciau siopau neu mewn trefi mwy sy'n cystadlu yn eu herbyn. Cludfwyd yw bwyd a diod yn bennaf oherwydd natur ffordd drwodd y dref, gyda'i dwy dafarn â phresenoldeb ffisegol cryf ar y Stryd Fawr. Mae dau gaffi yn weithredol, ond mae'r dref yn fyr o bistro/caffi bach sy'n agor gyda'r nos. Mae'r patrwm o ddefnyddiau yn gysylltiedig ag ansawdd amgylcheddol canol y dref sy'n bennaf yn sgil y swm o draffig sy'n teithio ar hyd ffordd y B5129, a'r effeithiau cysylltiedig ar gyfleoedd i dreulio amser a manteisio ar ei llecynnau cyhoeddus awyr agored.

Ffigur 14 – Dadansoddiad o Ddefnyddiau Canol y Dref yn ôl Dosbarth Defnydd





Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

Ffigur 15 – Dadansoddiad o Ddefnyddiau Canol y Dref yn ôl Segment




Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

Ffigur 16 – Dadansoddiad o Ddefnyddiau Canol y Dref yn ôl Gweithgaredd




Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

### Strydlun Canol Tref Shotton






















Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

## DADANSODDIAD O FFRYNTIAD Y STRYD

Mae ansawdd y ffryntiad y stryd yn amrywio o un pen i'r llall ar hyd y stryd.

Mae ansawdd ffryntiad y stryd yn uwch ym mhen dwyreiniol canol y dref, gyda mwy o adeiladau hanesyddol a thirnod. Mae'r pen hwn o ganol y dref hefyd yn tueddu i gynnwys mwy o'r siopau cadwyn a brandiau cenedlaethol sy'n gyffredin mewn aml i stryd fawr.

Mae ansawdd y ffryntiadau yn gostwng tuag at ben gorllewinol y dref. Ar yr ochr ddeheuol mae adeiladau mwy modern yn difetha cymeriad brics coch y stryd. Mae gan yr ardal hon o'r dref fwy o wasanaethau a defnyddiau lleol.




ALLWEDD

- Ffryntiad stryd o ansawdd da
- Ffryntiad stryd o ansawdd cyfartalog
- Ffryntiad stryd o ansawdd gwael
- Adeiladau gwag
- Y Stryd Fawr / Ffordd Caer
- Trac Rheilffordd

## CRYNODEB O 'GIVE MY VIEW'

Fel rhan o'r ymgynghoriad cymunedol, defnyddiodd Cyngor Sir y Fflint y llwyfan digidol 'Give My View' a gafodd ei hyrwyddo drwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. Cynhyrchodd yr ymgyrch hon:

- 146,407 o argraffiadau
- Cyrhaeddiad o 25,020, gyda
- 1,594 o bobl yn clicio ar yr arolwg.

Ar ôl clicio ar yr arolwg, cwblhawyd 1,143 o arolygon a derbyniwyd 830 o sylwadau a gefnogodd y dadansoddiad o anghenion a phwyslais lleol ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd.

Roedd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn fwyaf effeithiol gyda chynulleidfaoedd hŷn, gyda'r rheini dros 65 yn dangos mwyaf o ddiddordeb, a ddilynwyd yn agos gan y rheini rhwng 55 a 64 oed. Facebook oedd y llwyfan mwyaf llwyddiannus gydag Instagram yn dod yn ail.

**32%** — O bobl yn teimlo bod canol tref Shotton yn groesawgar

**24%** — O bobl yn teimlo'n gadarnhaol tuag at yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig ar hyn o bryd

**60%** — O bobl yn graddio Shotton fel lle sydd â chysylltiadau da â gwasanaethau a chyfleusterau lleol

Ansawdd bywyd a diogelwch yw'r flaenoriaeth uchaf i drigolion




Un gair cadarnhaol am ganol tref Shotton ar hyn o bryd




Un gair negyddol am ganol tref Shotton ar hyn o bryd

**Y prif welliannau i'w gwneud yn Shotton yw:**

- Gwasanaethau 63%
- Eiddo gwag 57%
- Parcio 24%
- Mwy o wyrddni 22%
- Palmentydd 10%
- Parciau 10%

**Y 3 phrif reswm dros ymweld â chanol tref Shotton yw:**

- Gwasanaethau 50%
- Siopa groser 49%
- Cyfarfod teulu a ffrindiau 23%

**Beth yw'r 5 peth pwysicaf ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol?**

- Cyfleoedd siopau 70%
- Gwella adeiladau 51%
- Digwyddiadau cymdeithasol a chymunedol 30%
- Materion amgylcheddol 29%
- Iechyd a llesiant 25%

**Pa mor aml mae pobl yn ymweld â chanol tref Shotton?**

- Bob dydd 18%
- Sawl gwaith yr wythnos 23%
- Unwaith yr wythnos 17%

**Sut mae pobl yn mynd i ganol tref Shotton?**

- Car 66%
- Cerdded 53%
- Bws 12%

**Pa amser o'r dref mae pobl yn ymweld?**

- Bore 45%
- Amser cinio 20%
- Prynhawn 38%
- Gyda'r nos 13%

**Pa mor hir mae pobl yn aros?**

- Dw i mewn ac allan 75%
- Treulio ychydig oriau 13%

## LLE – LLEOLIAD A SAFLE

Mae Shotton wedi'i leoli yng nghanol cytref Glannau Dyfrdwy ar hyn glan ddeheuol Afon Dyfrdwy. Mae'n ffurfio rhan o'r ardal breswyl ehangach ac mae wedi'i gysylltu â Chei Connah i'r gorllewin a Queensferry, Pentre ac Aston i'r dwyrain.

Mae Shotton yn gyrchfan allweddol rhwng y trefi a'r pentrefi hyn gan fod canol y dref yn ffurfio'r prif graidd manwerthu yn yr ardal. Mae'r rheilffyrdd, y prif ffyrdd i gerbydau a'r llwybrau i gerddwyr / beicwyr i gyd yn cydgyfarfod yn Shotton gan ei wneud yn ganolfan allweddol ac yn un o'r pyrth i'r ardaloedd mwy diwydiannol i'r gogledd o'r afon.

I'r gogledd o'r dref mae coridor gwyrdd yn ffurfio byffer rhwng y dref a'r afon. I'r de-orllein o'r dref mae Parc Gwledig Gwepra a chefn gwlad agored.



## SYMUD


Mae Shotton yn nghanol rhwydwaith symud yr ardal, gyda nifer o lwybrau allweddol yn cydgyfarfod o fewn y dref.

Mae Ffordd Aston yr A494 yn rhedeg ar hyd ymyl orllewinol y dref. I'r de mae hon yn cysylltu â Gwibffordd Gogledd Cymru sy'n cysylltu Caer â Chaergybi trwy ogledd Cymru. I'r gogledd mae'n cysylltu â'r M52/M56 yn cynnig cysylltiadau â Lerpwl a Manceinion. Mae'r rhain yn hawdd eu cyrraedd o Shotton ar hyd y B5129.

Mae Lôn Las y Mileniwm Caer yn llwybr beicio rhwng Shotton a Chaer. Mae hon yn cynnig llwybr beicio diogel oddi ar y ffordd i Gaer mewn llai nag awr ac mae hefyd yn gyswllt allweddol i weithwyr rhwng Shotton, Gwaith Dur Tata a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Mae dwy orsaf reilffordd wedi eu lleoli yn Shotton, yn gwasanaethu dwy reilffordd wahanol. Mae'r orsaf i'r gogledd ar y rheilffordd o'r dwyrain i'r gorllewin rhwng Caergybi a Chaer. Mae'r orsaf ddeheuol ar y rheilffordd de-goglеdd rhwng Bidston (lle gellir teithio ymlaen i Lerpwl) a Wrecsam. Mae hyn yn rhoi prif drefi a dinasoedd yr ardal o fewn cyrraedd hawdd â thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn mynd ar hyd Afon Dyfrdwy heibio i'r dref. Gellir cyrraedd y llwybr hamdden hwn o'r dref trwy ychydig lwybrau allweddol dros reilffordd y gogledd.



## CYSYLLTIADAU

Un anhawster allweddol o fewn Shotton yw sut mae'r rheilffyrdd yn achosi rhwystr rhwng dwyrain a gorllewin a Shotton Uchaf ac i'r gogledd at y llecyn gwyrdd ac Afon Dyfrdwy.


Dim ond ar bwyntiau penodol y gellir croesi'r rheilffyrdd yn y dref. Mae mynediad i gerddwyr rhwng y dwyrain a'r gorllewin wedi ei gyfyngu i'r B5129, Gorllewin Ffordd Caer ger Gorsaf Drenau Shotton. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl draffig sy'n teithio o'r dwyrain i'r gorllewin trwy Shotton yn cael ei hidlo trwy'r pwynt hwn. Mae trac gwledig cul yn cynnig llwybr arall i'r de o'r dref ond byddai hwn yn anaddas i bopeth ond mynediad lleol.

Mae mynediad i gerbydau dros y rheilffordd i'w gael i'r gogledd, sy'n gwasanaethu mynediad lleol yn unig heb ddim teithio ymlaen.

Dim ond tri llwybr i gerddwyr sy'n croesi'r rheilffordd rhwng dwyrain a gorllewin Shotton. Mae'r orsaf drenau yn hwyluso symud rhwng dwyrain a gorllewin Shotton ac i'r gogledd at Lôn Las y Mileniwm Caer. Mae'r llwybr hwn fodd bynnag yn ddigon unig a all gadw rhai defnyddwyr draw ar adegau penodol o'r dydd. Mae llwybr arall wedi ei leol i'r de o'r dref a bydd hwn yn gyswllt allweddol i drigolion lleol yn enwedig rhwng y ddwy ysgol gynradd sydd wedi eu lleoli bob ochr i'r traciau. Fodd bynnag, mae'r llwybr hwn eto yn dioddef yn y ffordd mae o'r golwg a heb wyladwriaeth a all beri i'r llwybr deimlo'n anniogel.

Gan fod y ddau lwybr hyn wedi eu lleoli ar ymylon eithaf y dref y prif lwybr i gerddwyr felly yw'r B5129 sy'n rhedeg drwy ganol y dref a dyma'r cyswllt gorau â'r rhwydwaith symud ehangach.

Mae hyn yn rhoi pwyslais ychwanegol ar wneud y danffordd hon y cyswllt allweddol i gerddwyr a cherbydau rhwng dwy ardal y dref ac felly dylai ffurfio rhan ganolog o unrhyw gynigion.



## ASEDAU LLEOL

Mae Shotton yn ganolbwynt trafnidiaeth pwysig o fewn Glannau Dyfrdwy. Mae gan Shotton nifer o asesau lleol hefyd sydd o fudd mawr i'r gymuned leol. Tuag at ben dwyreiniol y dref mae nifer o ddewisiadau manwerthu y tu allan i'r dref, siop fwyd fawr Asda a Chanolfan Hamdden. Maent i gyd yn hawdd eu cyrraedd o'r A494, Ffordd Aston, yn ogystal â'r B5129, gan eu gwneud yn hawdd iawn eu cyrraedd i'r boblogaeth leol a'r boblogaeth ehangach.

Mae Campws Dysgu Queensferry hefyd wedi ei leoli o fewn dwyrain Shotton ac mae ganddo gysylltiadau da â'r rhwydwaith ffyrdd ehangach. Mae nifer o ysgolion cynradd wedi eu lleoli o gwmpas Shotton gan eu rhoi o fewn pellter cerdded i'r gymuned leol.

Mae Ysbyty Glannau Dyfrdwy wedi ei lleol o fewn Shotton Uchaf a dyma'r brif ganolfan iechyd a meddygol o fewn yr ardal leol.


Mae nifer o gaeau chwaraeon a hamdden wedi eu lleoli yma ac acw ledled Shotton. Mae Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Shotton i'r gogledd o'r dref ac mae Canolfan Chwaraeon a Chymuned Shotton Uchaf yn cynnig amrywiaeth o glybiau chwaraeon i bobl leol. Mae nifer o gaeau hamdden wedi eu lleoli ar hyd a lled y dref gan roi llecynnau gwyrdd ac actif o fewn cyrraedd hawdd i bawb o'r trigolion.



# Y LLE

Y B5129, Gorllewin Ffordd Caer, sy'n ffurfio'r prif lwybr trwy ganol y dref. Mae'n ffurfio canol y dref ac mae'n cynnwys prif gyfleusterau siopau, gwasanaethau a hamdden yr ardal.

Gellir gweld y B5129 fel tair ardal ar wahân, pob un â'u heriau a'u cyfleoedd eu hunain. Y 3 ardal hyn yw:



## Y PORTH DWYREINIOL

Mae'r porth dwyreiniol i Shotton wedi ei ffurfio gan nifer o ddefnyddiau y tu allan i'r dref ac mae wedi ei nodweddu â phensaernïaeth blychau mawr a ffordd gyswllt lydan.Mae'r arddull hwn o bensaernïaeth yn tueddu i fod yn ddi-liw ac undonog ac oherwydd natur y defnyddiau, mae'n tueddu i gael lleoedd mawr i barcio ceir (tarmac) o flaen yr adeiladau. Mae hyn yn arwain at ardal sy'n brin o unrhyw deimlad o le na chymeriad.



Wrth ichi ddod oddi ar yr A494 ac anelu am Shotton mae diffyg unrhyw fath o nodwedd porth. Y Ganolfan Hamdden, sy'n adnodd allweddol i'r ardal gyfan, yw'r adeilad cyntaf o sylwedd ar hyd y stryd. Fodd bynnag, mae'n iddo du blaen disylw ac mae'n brin o unrhyw nodweddion sy'n estyn croeso i'r dref a'i hyrwyddo.





Mae'r 'stryd' ei hun yn rhy lydan, gyda cherbytffordd lydan ochr yn ochr â llwybrau a lleiniau. Gan fod yr adeiladau o gwmpas yn tueddu i fod wedi eu codi gryn bellter o'r stryd does dim llawer yn gaeedig. Mae hyn yn erydu ymhellach y teimlad o le neu'n creu amgylchedd lle gall pobl deimlo'n anghysurus. Yn yr un modd, mae'r campws addysg gyferbyn yn gorwedd y tu ôl i haen i dirweddu ac mae'n brin o unrhyw bresenoldeb ar y stryd..



Mae ffurf y stryd yn creu amgylchedd gwael iawn i gerddwyr a beicwyr. Mae cerbytffordd lydan a chyffyrdd llydan yn ei wneud hi'n anodd croesi'r ffordd. Mae'r bont las uwchben yn ddatrysiad rhy orchestol ar gyfer croesi'r ffordd.

Mae'r ardal yn hawdd iawn ei chyrraedd â thrafnidiaeth gyhoeddus gyda nifer o safleoedd bws. Fodd bynnag, mae'r dewisiadau cyfyng ar gyfer croesi yn ei gwneud yn anodd mynd o gwmpas ar droed unwaith mae pobl wedi cyrraedd.


Mae rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer beiciau ar hyd y llwybrau a rennir ond mae'n aneglur lle mae hyn yn cychwyn a gorffen, gyda'r potensial o achosi gwrthdaro gyda cherddwyr a cherbydau.

Er yr ymddengys yr ardal o'r map fod ganddi ardaloedd mawr o lecynnau gwyrdd a thirweddu, mae hyn yn tueddu i fod o ansawdd isel ac nid yw'n cyfrannu fawr ddim at greu teimlad o le.



Mae dau hawl tramwy cyhoeddus yn cysylltu'r ardal â Shotton Uwch a bydd hyn yn allweddol ar gyfer symudiadau cerddwyr a beicwyr rhwng y ddwy ardal. Mae hawl tramwy hefyd yn cysylltu'r ardal ag Afon Dyfrdwy (a Llwybr Arfordir Cymru) i'r gogledd. Mae'r rhain i gyd yn cydgyfarfod o gwmpas safleoedd allweddol y Ganolfan Hamdden a'r Campws Addysgu, fodd bynnag nid ydynt yn glir ac amlwg.

## Y PORTH DWYREINIOL



## YR ARDAL GANOLOG

Mae'r Ardal Ganolog yn ffurfio'r bont rhwng yr ardal ddwyreiniol, siopau/hamdden y tu allan i'r dref a chanol y dref. Oherwydd ei safle o fewn canol y dref a'r anhygyrchedd a achosir gan y rheilffordd, mae'r ardal yn derbyn llawer o draffig o Shotton Uchaf sy'n anelu tua'r gorllewin ac o orllewin Shotton yn teithio tua'r dwyrain.

Caiff porth mewnol naturiol i'r ardal ei ffurfio ger Eglwys Sant Ethelwold. Mae'n adeilad o ansawdd uchel ac iddo werth pensaernïol a dylid ei ddathlu fel rhan o'r stryd. Mae'r Eglwys yn sefyll hefyd ar gyffordd allweddol yn yr ardal gan mai dyma'r brif fynedfa i fyny i Shotton Uchaf.



Mae'r Eglwys yn arwyddo natur breswyl fwy caeedig y stryd. Er bod y stryd yn dal yn llydan, mae natur agos yr adeiladau preswyl yn creu synnwyr da o naws gaeedig.



Mae defnyddiau ac adeiladau allweddol yn tueddu i fod wedi eu lleoli ar y cyffyrdd ar hyd y stryd. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys parciau poced bach, sy'n agor a chynnig 'lle i anadlu' o fewn y stryd. Mae'r parciau poced fodd bynnag wedi eu lleoli y tu ôl i waliau/gwrychoedd ac felly nid ydynt yn teimlo'n rhan o'r stryd.



Mae'r strydoedd yn tueddu i fod â cherbytffyrdd llydan a llwybrau troed, gan ganiatáu ar gyfer digon o weithgarwch o fewn y stryd. Mae cerddwyr fodd bynnag wedi eu cau i mewn gan gyfres o reiliau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i groesi. Mae rheiliau hefyd yn tueddu i roi mwy o deimlad o ddiogelwch i fodurwyr a all beri iddynt gyflymu.

Tuag at ben gorllewinol y stryd, mae'r defnyddiau'n troi'n fwy masnachol a manwerthu, fel pont i'r stryd fawr. O fewn y pen gorllewinol hwn i'r stryd mae nifer o gysylltiadau allweddol ar hyd y rheilffordd i'r gogledd ac ymlaen at Lôn Las y Mileniwm Caer a Llwybr Arfordir Cymru. Mae'r orsaf reilffordd a'r croesfannau rheilffordd hefyd wedi eu lleoli yn yr ardal hon.

Mae'r bont reilffordd yn ffurfio'r prif borth i ganol y dref gan ei bod yn un o'r ychydig bwyntiau mynediad rhwng dwyrain a gorllewin Shotton. Mae'r bont reilffordd a'r lle o'i chwmpas yn ddefnyddiol ond fel arall yn brin o gymeriad na theimlad o gyrraedd. Mae bwrdd hysbysebu mawr gerllaw'r bont hefyd yn lleihau ansawdd yr ardal. Ychydig mae'r ardal yn ei wneud hefyd o ran croesawu pobl i Shotton o'r orsaf reilffordd.





chris jones  rl.  creu lleoedd SIR Y FFLINT

## YR ARDAL GANOLOG



## CANOL Y DREF

Mae canol y dref yn gorwedd ar ymyl gorllewinol Shotton ac yn ffurfio'r brif ganolfan siopau a gwasanaethau ar gyfer yr ardal. Mae'r ymestyn at Gei Connah a gorllewin Shotton ac mae'n hawdd ei gyrraedd ohonynt. Mae'r rheilffordd a'i unig bwynt o fynediad i gerbydau ar ei borth gorllewinol yn cyfyngu ar y mynediad iddo o'r dwyrain.

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r bont reilffordd yn ffurfio porth gwael i ganol y dref. Fodd bynnag, ar ochr arall y bont mae'r Central Hotel (tafarn Wetherspoon) gyda ffryntiad deniadol a gardd gwrw fywiog. Mae hyn yn gwella'n fawr ardal y porth i'r dref ac i lawr o'r orsaf reilffordd.



Mae rhwydwaith strydoedd Shotton sydd ar ffurf grid yn golygu bod llawer o gyffyrdd cerbydau yn dod allan i'r stryd. Gall hyn, ynghyd â ffordd sydd eisoes yn llydan, arwain at deimlad bod y stryd yn cael ei llethu gan geir.

Mae ansawdd yr adeiladau yn amrywio ar hyd y stryd gyda rhai adeiladau hŷn o frics coch ac o ansawdd uchel a adeiladau mwy modern o ansawdd gwael. Mae ffryntiadau'r siopau hefyd yn amrywio ar hyd y stryd ac oherwydd nad oes ganddi noddweddion sy'n ei huno, gall hyn olygu strydlun sy'n edrych yn orlawn a blêr.




Mae'r stryd yn cysylltu â'r ardal ehangach gyda chyswllt uniongyrchol â Pharc Dyfrdwy ar hyd Stryd y Bont. Mae llecyn gwyrdd hefyd wedi ei leoli gerllaw'r orsaf drenau a Nant Gwepra i'r gorllewin, gan roi mynediad da at lecynnau gwyrdd yn yr ardal. Mae mynediad at y rhain wedi ei gyfyngu fodd bynnag gan ddiffyg arwyddion gweledol.


Nid yw natur lydan y stryd yn caniatáu ar gyfer llwybrau mawr y tu allan i lawer o'r siopau. Fodd bynnag, nid yw'r stryd yn gwneud y defnydd gorau o hynny o le sydd ganddi, heb ddim, neu fawr ddim, tirweddu ac ond ychydig o siopau yn defnyddio'r lle hwn i osod nwyddau neu seddau caffis/tai bwyta y tu allan. Unwaith eto, mae cerddwyr wedi eu cau gan reiliau ar hyd y stryd.




Mae Nant Gwepra yn ffurfio'r ffin orllewinol i ganol y dref. Mae hwn yn borth deniadol gyda llawer o dirwedd aeddfed, ond caiff ei adael i lawr ar ochr canol y dref. Maes parcio ac ochrau adeiladau o ansawdd gwael sy'n cyfarch pobl wrth fynd i mewn i ganol y dref.



## CANOL Y DREF


I Barc Dyfrdwy
I'r orsaf a Lôn Las Mileniwm Caer
Mae'r Central Hotel gyda ffryntiad bywiog yn creu porth da
Canolbwynt symudiadau o amgylch y cyswllt â Pharc Dyfrdwy
Llwybrau llydan, ond nad ydynt yn cynnig fawr ddim o safbwynt gweithgarwch
Porth gwael ar ben gorllewinol canol y dref
Lle swnllyd, wedi ei lethu gan geir, lle mae rheiliau'n ei gwneud yn anodd croesi'r ffordd
Canolbwynt symudiadau o amgylch tafarn y Clwyd
Cyswllt allweddol trwy Shotton
CHESTER ROAD (WEST)
RYELAND STREET
ROWDEN ROAD
KING GEORGE
CHARMLEYS LANE
Wepre Bridge
Recreation Ground
Rivertown U Ref Ch
The Clwyd
Car Park
MANLEY COURT

## HARMONI O FEWN CANOL Y DREF

Yn ardal fasnachol a chanol tref Shotton, mae amrywiaeth yn ansawdd ffryntiadau adeiladau sy'n diffinio'r stryd. Fodd bynnag, nid ar ei hyd y mae'r amrywiaeth hwn, ond rhwng llawr gwaelod a llawr cyntaf pob adeilad.

Ac eithrio eiddo mwy newydd, mae'r adeiladau'n tueddu i fod o frics coch o oes Victoria. Mae lloriau gwaelod yr adeiladau hyn yn safleoedd manwerthu a masnachol ac yn cynnig cymysgedd digyswllt o ffryntiadau siopau mewn amrywiol liwiau, arddulliau ac ansawdd. Mae hyn yn tueddu i arwain at stryd sy'n edrych yn brysur ac anhrefnus ac sy'n fyr o unrhyw gymeriad na chysylltiadau â'r dref.

Fodd bynnag, mae llawr cyntaf (a lloriau uwch) yr adeiladau hyn yn cynnig manylion brics a nodweddion pensaernïol anghyffredin. Y llawr cyntaf sy'n dweud hanes a stori'r dref, ond caiff hyn ei golli ym musnes ac anhrefn y llawr gwaelod.

Dyma ychydig enghreifftiau o ffryntiadau siopau â manylion da ac addas ar y llawr gwaelod, sy'n adlewyrchu'r hyn sydd uwchben ac sy'n cyfrannu at gymeriad a hanes Shotton.






## HARMONI O FEWN CANOL Y DREF





Enghraifft dda o sut mae ffryntiad masnachol y llawr gwaelod yn addas ac yn adlewyrchu'r llawr cyntaf

Enghraifft o fanylion hardd ar y llawr cyntaf, a gaiff ei adael i lawr gan ffryntiad y llawr gwaelod




Mae adeiladau sy'n cadw eu lloriau gwaelod gwreiddiol yn fwy llwyddiannus



## FFURF DREFOL A NAWS GAEEDIG STRYDOEDD

Gall ffurf drefol a naws gaeedig strydoedd chwarae rhan allweddol mewn creu lleoedd ac yng nghymeriad lle.

Gall strydoedd sydd wedi eu hamgáu yn dda a lle mae uchder adeiladau yn gymesur â lled y stryd helpu creu a chadw teimlad o gymeriad mewn lle. Mae strydoedd sydd wedi eu hamgáu yn dda yn gweithredu ar raddfa ddynol ac yn helpu i ennyn teimlad o berthyn yn y lle ymysg pobl a defnyddwyr.

Yn aml, fodd bynnag, bydd strydoedd sydd wedi eu hamgáu yn wael yn 'colli gafael' ar gymeriad gan arwain at ddiffyg teimlad o le. Gall strydoedd llydan ac adeiladau isel sydd wedi eu gosod yn rhy bell yn ôl o'r ffordd gael anhawster wrth gadw cymeriad a gallant wneud i bobl deimlo'n anghysurus.

Gellir defnyddio tirweddu i helpu atgyfnerthu naws gaeedig ond nid yw'r tirweddu yn yr ardal hon yn ddigon cadarn i wneud hynny.

Mae'r ardal ganolog yn amrywio yn ei theimlad o naws gaeedig ar ei hyd. Gall yr amrywiaeth hon greu diddordeb a chynnig pocedi o 'le i anadlu' ar hyd y stryd lle mae'n lledu.

Mae gan ganol y dref deimlad da o naws gaeedig gydag adeiladau sydd ar raddfa addas ar gyfer ei led. Mae hyn yn creu cymeriad mwy ffurfiol lle gall adeiladau talach fel y Clwyd a'r Central Hotel sefyll allan fel tirnodau o fewn y stryd.



Mae Canol y Dref yn cynnig naws gaeedig dda ac mae'n cadw cymeriad





## NAWS GAEEDIG A MANNAU AGORED



Mae gan yr ardal ganolog amrywiaeth dda rhwng naws gaeedig ac agored

Naws gaeedig wael sydd gan y porth dwyreiniol ac mae'n colli gafael ar gymeriad







# MANNAU AGORED A GWEITHGARWCH STRYDOEDD

Ar hyd Gorllewin Ffordd Caer mae llawer o le wedi cael ei roi i'r gerbytffordd. Mae hyn yn arbennig o wir yn ardal y porth dwyreiniol lle ddefnyddir y llain ganol weithiau i helpu troi i'r parc siopau neu'r ganolfan hamdden, ond yn aml hefyd, nid yw'n ddim ond llain nad yw'n cael ei defnyddio ac nid yw'n gwasanaethu unrhyw ddiben. Gall y cynllun rhy orchestol hwn beri bod yr ardal yn teimlo'i bod wedi ei llethu gan geir a'i gwneud yn anodd i gerddwyr groesi.

Mae lled y ffordd yn culhau yn raddol wrth symud tua'r gorllewin trwy'r ardaloedd preswyl a masnachol, ond mae'n tueddu i ledu ar gyffyrdd allweddol, gyda lonydd troi yn cynyddu lled y ffordd. Mae rheiliau ar gyffyrdd ac ar hyd y stryd yn dod yn fwy cyffredin gan orfodi pobl i groesi mewn mannau dynodedig.

Mae llwybrau troed yn tueddu i fod yn hael ar hyd yr holl ffordd, gan gynnig amgylchedd cysurus i gerddwyr. Fodd bynnag, nid yw'r stryd yn gwneud fawr o ddefnydd o'r gofod hwn, gyda lleoedd cyfyng iawn ar gyfer tirweddu ac ychydig iawn o le tu allan ar gyfer siopau neu seddau caffis.

Nid oes fawr o ddarpariaeth benodol i feicwyr ar hyd y ffordd, gyda rhai llwybrau cerdded / beicio a rennir tuag at y pen dwyreiniol.


Mae lled cyffredinol y stryd yn rhoi digon o le i gynnwys cerbydau, beiciau a cherddwyr yn ogystal â chyfle am fwy o dirweddu a lleoedd i siopau a chaffis ymestyn y tu allan.



Amrywiaeth yn y gerbytffordd a phalmentydd hael yng Nghanol y Dref





Amrywiaeth yn y gerbytffordd a llwybrau da yn yr ardal ganolog




Y porth dwyreiniol, cerbytffordd lydan iawn, llwybrau a lleiniau o faint da






## Y NEWID YNG NGHYMERIAD SHOTTON












Mae canol y dref yn ffurfio craidd hanesyddol y dref gyda rhai adeiladau brics coch sydd o ansawdd uchel, ond caiff ei gadael ei lawr gan adeiladau mwy modern.

Cymysgedd o eiddo masnachol a phreswyl gyda rhai adeiladau brics coch o ansawdd uchel ac Eglwys Sant Etholwold










## Y NEWID YNG NGHYMERIAD SHOTTON





Pensaernïaeth blychau mawr o ansawdd isel heb fawr o gymeriad na theimlad o le.



## ARDALOEDD PRESWYL

Mae ardaloedd preswyl Shotton y tu ôl Orllewin Ffordd Caer, y B5129, yn bennaf i'r de ond rhai hefyd i'r gogledd rhwng y brif ffordd a'r rheilffordd.

Mae'r tai sydd agosaf at y B5129 yn tueddu i fod yn hen, a godwyd ar gyfer gweithwyr oes Victoria, ac maent mewn terasau hir ar ongl sgwâr i'r brif ffordd. Mae'r rhain yn dai brics coch o ansawdd a gallant gynnwys manylion deniadol a ffenestri bwa. Mae'r strydoedd hir llinellol yn caniatáu mynediad rhwydd i ganol y dref ac mae'r brics coch yn ychwanegu cymeriad trawiadol i'r ardal.





Y tu hwnt i'r brif ffordd i'r de, mae'r tueddiad yn fwy at dai mwy a godwyd wedi'r Ail Ryfel Byd. Unwaith eto, mae arddull grid yn caniatáu ar gyfer ardal hydraidd sydd â chysylltiadau da ac sy'n bwydo'r mynediad i ganol y dref a'r brif ffordd. Mae'r tai yn tueddu i fod yn eiddo deniadol a defnyddiol, gyda gerddi wedi eu tirweddu'n dda o'u blaen.

Mae Shotton Uchaf wedi'i leoli ymhellach i'r de ac mae wedi ei nodweddu â datblygiadau mwy modern, lle mae'r arddull grid wedi cael ei ddisodli â chymeriad mwy maestrefol. Mae ardaloedd yn tueddu i fod o gwmpas cyfres o gaeau hamdden sy'n rhoi parciau a llecynnau gwyrdd yn agos at drigolion. Mae'r datblygiad o amgylch Ysbyty Glannau Dyfrdwy wedi ei godi gydag ardaloedd mawr o lecynnau gwyrdd ar hap, sy'n aml yn arwain at ddiffyg cymeriad.results in a lack of character.



Stoc da o derasau brics coch Victoriaidd, gyda manylion deniadol. Ambell dŷ wedi ei orchuddio â gro mân neu randrad.



Unedau pâr ac ar wahân wedi eu hadeiladu mewn brics coch neu rendrad plaen neu gyfuniad o'r ddau.



Llecynnau gwyrdd ar hap nad ydynt yn cael eu goruchwylio, sydd felly'n eu gwneud yn anniogel, yn enwedig yn y nos.





Caiff strydoedd cefn eu goruchwylio'n wael a gallant gael problemau gyda thipio anghyfreithlon.



Mwy o barcio ar dir preifat cartrefi yn lleihau goruchafiaeth y car ar y stryd.



Mae gerddi wedi cael eu gwahanu gan naill ai wrychoedd gwyrdd neu lecynnau gwyrdd agored gyda llwyni isel.

Strydoedd o dan oruchafiaeth ceir. Darperir parcio ar y stryd, felly'n tarfu ar lwybrau cerddwyr.



Gerddi blaen yn ychwanegu gwyrddni at y stryd. Mae'r gymdogaeth yn gyffredinol yn fyr o lecynnau gwyrdd ar gyfer hamdden.



Mae gan yr ardal ganolfan leol a mynediad da at lecynnau gwyrdd.



# DADANSODDIAD SWOT LLE

## CRYFDERAU

- Lleoliad strategol sy'n agos at ddinasoedd a threfi eraill
- Treftadaeth adnabyddus mewn dur a gweithgynhyrchu
- Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy gyda chyflogwyr mawr, ee Toyota
- Mae'r B5129 yn goridor ffordd allweddol drwy ganol y dref
- Mae'r dref yn gymharol wastad, cryno a hygyrch
- Mae trigolion yn agos i ganol y dref, pawb o fewn 15 munud o amser cerdded
- Gorsaf drenau unigryw (Lefel Uchel ac Isel) sy'n cysylltu arfordir gogledd Cymru, Wrecsam i Lerpwl
- Mae rhai clystyrau cryf o ddefnyddiau sector gwasanaethau ee gwallt a harddwch
- Canolfan wasanaethau lleol gyda nifer o fanciau, gwerthwyr tai a gwasanaethau eraill megis siopa groser, gyda'r siopa'n digwydd yn y bore'n bennaf
- Parcio oddi ar y stryd yn agos i'r Stryd Fawr
- Mae cyfradd eiddo gwag y dref yn gymharol isel o gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig
- Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy gerllaw
- Agos at Lwybr Arfordir Cymru, Llwybr Beicio Cenedlaethol
- Ardaloedd mawr o amwynder gwyrdd, lle hamdden a chwaraeon i'r dwyrain o ganol y dref
-

## GWENDIDAU

• Diffyg hunaniaeth ar wahân i Shotton gan ei fod ynghlwm wrth Queensferry a Chei Connah

• Mae'r rheilffyrdd yn creu toriad oddi wrth Afon Dyfrdwy a rhwng dwyrain a gorllewin Shotton

• Mae'r B5129 yn denu swm sylweddol o draffig, gan arwain at ansawdd amgylcheddol gwael a phrofiad gwael o ganol y dref

• Diffyg cynnig amrywiol o fwyd a diod

• Y lleoliad yn arwain at golli masnach a gweithgarwch o ganol y dref i drefi a dinasoedd cyfagos megis Caer

• Asda a Pharc Siopau Glannau Dyfrdwy yn denu masnach oddi wrth ganol y dref

• Pobl yn tueddu i wibio i mewn ac allan o'r Stryd Fawr (74%) – dim ond 13% sy'n treulio ychydig oriau

• Nid yw'n gyrchfan gyda'r nos

• Mae canol y dref yn brin o seilwaith gwyrdd

• Dim ardal fawr o barth cyhoeddus na sgwâr ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau

•Ddim yn gydnaws â beicio neu gerdded diogel

• Diffyg strydlun gyson o fewn canol y dref

• Mae'r bont reilffordd yn cael ei gweld fel rhwystr

•Ffordd gyda rheiliau diogelu cerddwyr ac offer arall stryd sy'n flinedig yr olwg

•Dim teimlad gwirioneddol o le na hunaniaeth

•Problemau ansawdd tai cymysg rhwng Shotton Uchaf a Shotton Isaf

•Mae risg llifogydd yn gyfyngiad allweddol heb ddim datblygiadau tai newydd

im teimlad gwirioneddol o le na hunaniaeth

•Problemau ansawdd tai cymysg rhwng Shotton Uchaf a Shotton Isaf

•Mae risg llifogydd yn gyfyngiad allweddol heb ddim datblygiadau tai newydd

## CYFLEOEDD

- Y broses Cynllun Creu Lleoedd a gweithio mewn partneriaeth
- Adeiladu ar frand treftadaeth ddiwydiannol gref – 'gwnewch hyn yn Shotton'
- Rôl y gymuned mewn darparu ar gyfer bylchau yng nghyfleusterau a chynnig canol y dref, ee Eglwys Rivertown
- Mwy o gyfleusterau a lleoedd cymdeithasol yng nghanol y dref
- Mae ar drigolion eisiau gweld buddsoddiad mewn cyfleoedd manwerthu, gwelliannau i adeiladau, ac wedyn, cyfleusterau hamdden a digwyddiadau cymdeithasol / cymunedol
- Buddsoddiad mewn teithio llesol
- Canolbwynt yr orsaf drenau – rôl partneriaethau rheilffordd cymunedol
- Manteisio i'r eithaf ar leoliad agos i Lwybr Arfordir Cymru a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol
- Angen i'r fynedfa'r bont reilffordd fod yn rhan o hunaniaeth canol y dref ee gwaith celf, goleuadau
- Troi cymdogaethau at y Stryd Fawr
- • Gwell cysylltiad gyda choridor Afon Dyfrdwy

## BYGYTHIADAU

- Twf ac apêl mewn lleoedd ar yr ymylon
- Rhagolygon economaidd, costau busnes, costau byw
- Stryd Fawr sy'n newid – rôl banciau
- Newid hinsawdd, risg llifogydd a chyfyngiadau ar seilwaith
- Twf traffig a phroblemau sŵn / ansawdd aer ar y B5129

# DADANSODDIAD SWOT POBL

## CRYFDERAU

- Cymuned falch – tref ddur a gweithgynhyrchu
- Dosbarthiad oedran rhwng 30 a 59 sy'n uwch na'r cyfartaledd
- Goruchafiaeth aelwydydd 3 ystafell wely
- Cyfran uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn berchen un car neu fan
- Pobl yn tueddu i deithio llai na 10km, bron 33% yn fwy na chyfartaledd Cymru
- Cyfran uwch o bobl yn defnyddio bws neu fws mini i fynd i'r gwaith
- 25% yn uwch na chyfartaledd Cymru yn deithiwr mewn car (rhannu ceir)
- Grwpiau a sefydliadau cymunedol gweithgar ee Eglwys Rivertown
- Trigiolion yn gallu cyrraedd gwasanaethau a theithio o gwmpas yn rhwydd
- Mae llecynnau amwynderau gerllaw ar ochr ddwyreiniol y dref
- Seilwaith gwyrdd a glas gerllaw – ee gwarchodfa natur, coridor Afon Dyfrdwy

## GWENDIDAU

- Cymuned sy'n dal gafael ar ei gorffennol – angen rheoli newid mewn rôl a swyddogaeth
- Disgwyliad oes yn is na chyfartaledd Cymru, gyda charfannau oedran dros 60 yn lleihau o gymharu â chyfartaledd Cymru
- Ansawdd bywyd a diogelwch yn cael ei weld fel blaenoriaeth
- Cyfran uwch na chyfartaledd Cymru o aelwydydd mewn amddifadedd (un neu ddau ddimensiwn)
- Cyfran is na chyfartaledd Cymru o bobl yn graddio eu hiechyd fel da iawn
- Pobl yn llai tebygol o weithio o gartref
- Cyfran uwch na chyfartaledd Cymru o bobl nad ydynt mewn cyflogaeth neu erioed wedi gweithio
- Cyflogaeth ddim yn eang yn ôl galwedigaeth gyda goruchafiaeth mewn prosesau, ffatrïoedd a pheiriannau a galwedigaethau elfennol eraill
- Cynnydd mewn rhai categorïau troseddu megis difrod troseddol a thrais a throseddau rhywiol
- Mae Shotton Uchaf 2 ar safle 98 ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, sydd yn y 10% uchaf
- Materion o bryder penodol sy'n ymwneud â'r Mynegai Amddifadedd yw i) addysg ii) diogelwch cymunedol iii) incwm a iv) iechyd a v) chyflogaeth

## CYFLEOEDD

- Defnyddio llecynnau agored i wella iechyd a llesiant
- Rôl teithio llesol i ddiwallu anghenion cyflogadwyedd
- Gall y sector cymunedol a gwirfoddol gynnig cyfleusterau a gweithgareddau cymdeithasol
- Cynlluniau adnewyddu tai sy'n gysylltiedig â chynlluniau prentisiaethau lleol a rhai anodd eu cyrraedd
- Gall buddsoddi yn yr orsaf drenau gefnogi teithio i'r gwaith a gwell ansawdd bywyd

## BYGYTHIADAU

- Bydd diffyg tai newydd yn effeithio ar gydbwysedd oed y boblogaeth
- Costau byw a rhagolygon economaidd
- Newid hinsawdd, risg llifogydd a chyfyngiadau ar sailwaith



# 05:
# ADEILADU AR EI SYLFAEN

# BLAENORIAETHAU/THEMÂU SY'N DOD I'R AMLWG

## ANGEN / TYSTIOLAETH

Mae'r dref yn dal gafael ar ei gorffennol diwydiannol ac mae angen iddi symud ymlaen fel ei bod yn cyflwyno'i hun fel cymuned sy'n dal i fod â balchder ond sy'n adnabyddus am ei lleoliad yn ardal ddeinamig Glannau Dyfrdwy. Mae Ymgynghoriad Cymunedol Give My View yn dangos canfyddiad o ddiffyg croeso ac mae'n gosod hanes a diwylliant fel llai o flaenoriaeth.

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Hunaniaeth i Shotton

Un thema drawsbynciol yw adeiladu ar hunaniaeth Shotton trwy ei le ffisegol a'i bobl, fel bod trigolion yn cael teimlad o berthyn a throi at hynny yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn rhannol yn fuddsoddiad ffisegol ac yn rhannol yn ymgyrch farchnata/hyrwyddo. Gallai deunyddiau a chysyniadau a ddefnyddir mewn prosiectau ffisegol yn y dyfodol adlewyrchu treftadaeth dur y dref.




Mae agosrwydd Shotton at Afon Dyfrdwy ac ardaloedd cyflogaeth cyfagos, gwarchodfeydd arfordirol, Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Beicio Cenedlaeth yn rhai o'r asedau a'r nodweddion allweddol nad ydynt yn teimlo'n rhan o'r profiad a geir o Shotton.

### Cysylltu ag Afon Dyfrdwy

Lle bo llwybrau'n bod, mae angen iddynt fod yn haws eu canfod, yn integredig a ffurfio rhan o rwydwaith sy'n hwylus a hygyrch i bawb. Mae angen integreiddio hyn â thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen i'r gwaith arfaethedig ar deithio llesol gyfeirio pobl yn well at y cysylltiadau ehangach.



Ni fanteisir digon ar leoliad Shotton ar y rheilffyrdd Caer i Gaergybi (Arfordir Gogledd Cymru) a Wrecsam i Bidston (Y Gororau (Lerpwl)), ac mae angen dyrchafu hyn o ran lleoliad y dref, cysylltiadau â llwybrau pellteroedd hir a buddion eraill. Mae cyfle hefyd i hyrwyddo cyfleoedd teithio llesol gan fod 40% o'r gymuned yn teithio llai na 5km i'r gwaith.

### Ar Groesffordd o Gysylltedd

Manteisio i'r eithaf ar leoliad unigryw y ddwy orsaf (Shotton Uchaf ac Isaf) trwy well seilwaith, gwell cyswllt â chanol y dref, gweithgarwch partneriaeth gymunedol rheilffordd, marchnata a hyrwyddo a mwy. Mae angen cysylltu hyn â buddsoddiadau teithio lleol a chynllunio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Angen hefyd gwella golwg ffisegol y porth a'r argraff gyntaf o Shotton wrth gyrraedd ar y trên.



## ANGEN/TYSTIOLAETH

Mae'r Asesiad Ansawdd Amgylcheddol, yr Archwiliad Seilwaith Gwyrdd, Ymgynghoriad Cymunedol Give My View a'r Asesiad Masnachol yn ein cyfeirio ni at ansawdd gwael amgylchedd canol y dref sy'n effeithio ar y profiad o siopa, yn ogystal â diogelwch a diffyg gwyrddni. Mae ymweliadau â chanol y dref yn amlygu dwysedd traffig, sŵn, parth cyhoeddus gwael, golwg flêr ar y stryd a diffyg seilwaith gwyrdd sy'n cyfrannu at le sy'n gyfyngedig o ran denu pobl i aros ynddo a'i fwynhau.

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### O Ffordd i Stryd


Blaenoriaeth allweddol yw dull seiliedig ar le o ymdrin â'r B5129 sy'n dod drwy Shotton, gan gychwyn yn Queensferry a pharhau drwy Gei Connah. Mae angen i hyn edrych ar ddynesfeydd, cysylltu â llecynnau cyhoeddus a gwyrdd o gwmpas, parcio oddi ar y stryd, y gorsaf(oedd) trên a gwneud canol y dref yn fwy cyfeillgar i bobl ac felly'n bywiogi palmentydd, ffryntiadau a mwy. Mae angen id dull seiliedig ar le gynnwys y cerbyd modur ond rhoi blaenoriaeth i ddefnyddwyr eraill y stryd: cerddwyr a beicwyr. Dull amlddisgyblaethol: cynllunio trefol a chreu lleoedd, tirwedd, ecoleg, draeniad a newid hinsawdd, ansawdd aer, teithio llesol, treftadaeth. Bydd uno dwy ochr y stryd yn flaenoriaeth.




Mae'r Asesiad Ansawdd Amgylcheddol, Ymgynghoriad Cymunedol Give My View a'r Asesiad Masnachol yn dangos problemau hefyd gydag ansawdd y strydlun, tu blaen siopau, defnyddio caeadau ar ffenestri a drysau, gyda'r chanol y dref yn teimlo wedi cau yn rhannol gydag angen i fabwysiadu dull cyson o ymdrin ag adeiladau a'r gofod o'u cwmpas. Mae ymweliadau â chanol y dref yn amlygu bod gan lawer o'r adeiladau mwy hanesyddol, o'r dinesig i'r preswyl syml, lefel uchel o fanylion a nodweddion o ansawdd da. Mae hyn yn creu sail gyffredinol dda i weithio arni.

### Amgylchedd Adeiledig o Ansawdd Uchel

Datblygu cod dylunio i ganol y dref sy'n creu strydlun fwy ystyrlon i Shotton y bydd trigolion ac ymwelwyr yn ei chael yn atyniadol, ac a fydd yn cefnogi gweithgarwch, teyrngarwch a datblygiad economaidd lleol. Dylai hyn weithio mewn partneriaeth ac ategu unrhyw gynigion ehangach ar gyfer y strydlun. Mae angen iddo adlewyrchu dull dylunio unedig teuluol ar gyfer y lle cyfan.



## ANGEN/TYSTIOLAETH

Oherwydd y llif cyson o draffig ac amgylchedd ffordd, does dim teimlad o le i dreulio amser neu gymdeithasu yng nghanol y dref bod hyn mewn adeilad canolog neu ganolfan neu mewn sgwâr cyhoeddus gyda marchnadoedd a digwyddiadau ymlaen. Nid yw hyn yn digwydd yn Shotton.

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Cael Calon Gymdeithasol yn ôl i Ganol y Dref

Gall amgylchedd sy'n fwy seiliedig ar stryd roi mwy o galon gymdeithasol i ganol y dref, a fyddai'n gwneud Shotton yn dref fwy hygyrch, diogel ac apelgar i weld â hi. Mae'r cynigion ar gyfer Eglwys Rivertown yn cychwyn gwella a dyrchafu gweithgarwch cymunedol yng nghanol y dref gydag adeiladau eraill yn cael y cyfle i agor eu drysau at ddefnydd y gymuned ehangach. Bydd gofod ar y stryd i fusnesau a gweithgareddau yn helpu bywiogi'r strydlun a chyfrannu at deimlad o fywiogrwydd.



Dengys mynegeion amddifadedd bryderon ynghylch ansawdd tai a diogelwch cymunedol fel materion sydd angen sylw yn enwedig yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Shotton Uchaf 2. Does gan y Cynllun Datblygu Lleol ddim ymrwymiadau newydd na dyraniadau newydd ar gyfer tai, ac oherwydd cyfyngiadau risg llifogydd, mae'r cyfle am ddatblygiadau tai newydd yn annhebygol.

### Ansawdd Tai a Byw yn Shotton

Mae'r angen i sicrhau bod cartrefi o'r ansawdd iawn yn bwysig i lesiant trigolion, yn ogystal â'r amgylchedd maent yn byw ynddo. Heb ddim cynlluniau twf am dai newydd, dylid cynllunio ar gyfer gwelliannau ac addasiadau i'r stoc presennol ac addasu adeiladau eraill. Gall fod cyfle hefyd i ailddatblygu safleoedd tir llwyd i ddibenion preswyl, yn amodol ar yr hyn y bydd y NCT15 newydd yn ei bennu, unwaith y caiff ei gyhoeddi.



Dengys data'r Cyfrifiad fod gan Shotton gyfraddau uwch o ddiweithdra na chyfartaledd Cymru gyda thrigolion yn tueddu i fod mewn galwedigaethau elfennol a phroses, ffatrïoedd a pheiriannau. Mae 25% o'r boblogaeth heb ddim cymwysterau a llai nag un o bob pump sydd â chymwysterau Lefel 4 neu uwch, sy'n 12% is na chyfartaledd Cymru.

### Codi Sgiliau a Chymwysterau o fewn y Gymuned

Mae'r angen i uwchraddio lefelau sgiliau, codi'r galw am sgiliau ymysg cyflogwyr, gwella'r nifer o brentisiaethau o ansawdd uchel, addysg bellach a hyfforddiant sgiliau a chymorth wedi ei dargedu ar ddatblygu sgiliau mewn busnesau bach a chanolig yn rhai o'r meysydd i fynd i'r afael â hwy.



## ANGEN/TYSTIOLAETH

Mae Shotton yn lle balch sydd â gwaddol ddiwydiant a gweithgynhyrchu. Mae angen i'r sylfaen hon helpu gydag elfennau o weithgarwch cymunedol, a chanfod ffyrdd o weithio gyda'i gilydd ar iechyd a llesiant cymunedol. Mae data ystadegol yn dangos bod cyfran uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o drigolion sy'n graddio eu hiechyd fel "gwael" neu "gwael iawn".

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Gweithgarwch Cymunedol, Iechyd a Llesiant

Canfod ffyrdd i drigolion chwarae rhan mewn bywyd cymunedol a dod yn weithgar o fewn eu cymdogaethau a'r ardal leol ehangach. Gall prosiect Gogledd Cymru Actif helpu cael mwy o bobl yn gorfforol actif ledled Shotton, gan dreialu rhai dulliau gwahanol, yn ogystal â rhandiroedd, tyfu a dosbarthu bwyd ffres, a byw yn fwy llesol.



Roedd yr Archwiliad Seilwaith Gwyrdd yn nodi'r amcan o "Rywle lle bydd ar bobl eisiau ymweld, byw, gweithio a chwarae" a "Pharth cyhoeddus deniadol, wedi ei ysbrydoli gan dreftadaeth Shotton, sy'n hwyluso defnyddiau ehangach ac annog troedio ynddo." Mae'r diffyg gwyrddni wedi cael ei ganfod trwy ymgyngoriadau â'r gymuned a thrwy asesiadau seilwaith gwyrdd ac mae'n amlwg wrth ymweld â'r dref. Mae'n faes amlwg o angen a all gael effaith weladwy a budd i drigolion a defnyddwyr eraill.

### Dod â mannau Gwyrdd, Amwynderol a Hamdden/Chwaraeon at ei Gilydd Stringing

Mae angen cysylltu seilwaith gwyrdd presennol ar draws y dref a chyflwyno seilwaith gwyrdd wrth wneud gwelliannau megis trwy deithio llesol, cysylltiadau llwybrau newydd, gwelliannau i'r orsaf drenau, gwelliannau i'r parth cyhoeddus a gweithgareddau eraill. Mae angen am arwyddion, dehongli, addysg a gweithgarwch allgymorth cymunedol. Mae angen integreiddio hyn fel rhan o gynigion ar gyfer y lle cyfan.



tudalen wag

## GWELEDIGAETH, NODAU AC AMCANION STRATEGOL



### Gweledigaeth

Shotton – cymuned falch ar lan Afon Dyfrdwy lle mae strydoedd yn gyfuniad o siopau lleol, lleoedd i gyfarfod, llecynnau gwyrdd, busnesau lleol ac yn estyn allan i ororau gogledd-ddwyrain Cymru



### Nodau Allweddol

Newid Ffordd Caer i fod yn stryd sy’n cyfarch pobl leol, yn denu pobl i dreulio amser ynddi a chreu teimlad o gymdogaeth a datgelu hunaniaeth Shotton.

Manteisio ar leoliad Shotton ger Afon Dyfrdwy, ei gysylltiadau rheilffyrdd Lefel Uchel ac Isel unigryw, llwybrau pellter hir, mynediad at lecynnau gwyrdd a dwr, a mwy.

Gwella llesiant cymuned Shotton trwy strydoedd cysylltiedig, canolfannau cymdeithasol, gweithgarwch cynhyrchiol gan greu croeso cynnes i bawb.

Sicrhau bod cyfleoedd dysgu ar gael i bobl leol a bod ganddynt amrywiaeth o lwybrau at gyflogaeth gyda Shotton yn helpu symudedd pobl, addysg gymunedol, entrepreneuriaeth a phrentisiaethau lleol.





## Amcanion

Datblygu dull dylunio ar sail stryd ar gyfer Ffordd Caer sy'n newid goruchafiaeth cerbydau, yn dal i alluogi hwylustod, mwy o barth cyhoeddus a chysylltu â rhwydwaith teithio llesol ehangach.

Datblygu'r echel rhwng Afon Dyfrdwy y gorsafoedd trenau Lefel Uchel ac Isel a Ffordd Caer fel canolfan cyrchfan integredig i Shotton.

Tyfu a sefydlu gweithgarwch cymunedol ar lawr gwlad sy'n manteisio i'r eithaf ar asedau lleol, canfod ffyrdd i wneud cysylltiadau ffisegol a gwella rhagolygon ac ansawdd bywyd pobl.

Cysylltu darparwyr dysg a hyfforddiant lleol trwy rwydweithiau cymunedol sy'n hyrwyddo llwybrau at gyflogaeth sy'n hygyrch i bawb, ac sy'n gweithio gyda'r tirwedd a'r cyfleoedd o fewn y gymuned.



Datblygu rhwydweithiau cymunedol fel bod grwpiau a thrigolion lleol yn cael gwybod am weithgareddau, digwyddiadau a chymorth lleol gydol y flwyddyn.

Datblygu hunaniaeth Shotton trwy weithgarwch ffisegol a seiliedig ar bobl sy'n gydnaws â'r gymuned, gan weithio ar lefel strategol ac ar sail stryd.

## CYFLEOEDD LLE A PHOBL

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, y nodau a'r amcanion, mae'r cyfleoedd canlynol wedi cael eu nodi.

### Cyfleoedd Lle



**O Ffordd i Stryd**




**Cod Dylunio i Shotton**



**Calon Gymdeithasol**



**Croesffordd o Gysylltedd**

## Cyfleoedd Pobl




**Hunaniaeth i Shotton**



**Byw Llesol**



**Uwchsgilio'r Gymuned**



**Gweithgarwch Cymunedol**



**Cymuned Werdd**

## CYFLEOEDD LLE – O FFORDD I STRYD

Cyfle allweddol i Shotton yw troi'r B5129 o ffordd i stryd. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu ei thrawsnewid o ffordd dan oruchafiaeth cerbydau i le sy'n canolbwyntio mwy ar bobl a all ddod â set ehangach o fuddion megis mwy o bobl yn defnyddio canol y dref, gwelliannau i iechyd a llesiant trwy fwy o dirweddu, llygredd is a mwy o deimlad o le.

Mae troi ffordd yn stryd yn rhywbeth y gellir ei gyflawni trwy leihau cerbytffyrdd sy'n rhy fawr ac felly gynyddu'r lle i feicwyr, cerddwyr a thirweddu. Mae hyn yn creu mwy o gyfleoedd i siopau a busnesau ymestyn allan ar y stryd, mwy o le i seddau a a lle i goed stryd a gerddi glaw. Bydd symud at roi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr yn helpu hefyd i wella symudedd o fewn yr ardal ac annog ffurfiau mwy llesol o drafnidiaeth.

**Pyrth Mynediad**

Ar y naill ben a'r llall i'r stryd, ac ar bwyntiau allweddol ar ei hyd mae cyfle i greu cyfres o byrth sy'n helpu i greu teimlad o gyrraedd ac o newid mewn cymeriad. Gall y pyrth hyn ddefnyddio ac atgyfnerthu hunaniaeth gyffredinol y dref trwy weithiau celf ac arwyddion trawiadol.



**Amgylchedd â Blaenoriaeth i Gerddwyr**

Dylai'r stryd gael ei dylunio gyda'r prif bwyslais ar gerddwyr a rhwyddineb eu symudiad. Bydd hyn yn cynnwys creu llwybrau cerdded clir ac uniongyrchol a chael gwared ar rwystrau sy'n cyfyngu ar ddewisiadau croesi. Bydd culhau cyffyrdd, defnyddio llwyfannau dyrchafedig / croesfannau Copenhagen (lle mae'r llwybr parhau'n uniongyrchol ar draws cyffordd) yn sicrhau blaenoriaeth i gerddwyr ac yn cynyddu symudedd o fewn y stryd.



**Cynyddu'r Defnydd o'r Stryd**

Mae cyfle i gynyddu defnydd o'r stryd trwy integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus yn well â llwybrau teithio llesol. Po fwyaf deniadol a hwylus y daw hi i gerdded, beicio neu gymryd trafnidiaeth gyhoeddus, y mwyaf o bobl a fydd yn gwneud hyn. Bydd hyn yn helpu cynyddu cyfraddau troedio i fusnesau lleol, cynyddu rhyngweithiau cymdeithasol a chreu calon wirioneddol i Shotton.



**Mwy o Dirweddu a Choed Stryd**

Bydd manteisio i'r eithaf ar y mannau y gellir eu defnyddio ar hyd y stryd yn creu mwy o gyfleoedd am barciau poced, tirweddu, gerddi law a choed stryd. Bydd hyn yn helpu i drawsnewid y stryd yn lle brafiach a mwy deniadol a all fod o fudd i iechyd meddwl a llesiant trigolion. Bydd hefyd yn cael buddion amgylcheddol – o ran cadw dwr yn well, cysgodi rhag y gwres ac aer glanach.







**Lle i Aros, Gorffwyso a Chymdeithasu**

Cyfyngedig yw'r cyfleoedd ar hyd y ffordd ar hyn o bryd i bobl aros, eistedd ac ymlacio. Fodd bynnag, lle bo hyn yn digwydd, fel y tu allan i'r Central Hotel, gall fod yn llwyddiannus iawn. Dylid darparu mwy o seddau a mannau cymdeithasol ar hyd y stryd, a fydd hefyd yn helpu cefnogi'r pwyslais mwy ar gerdded a beicio. Gellir cyflawni hyn trwy annog mwy o seddau caffis ac integreiddio seddau'n well ar fannau allweddol y pyrth, megis ar y bont reilffordd a'r parciau poced.

**Defnydd Cydnaws o Ddeunyddiau**

Gellir defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel i helpu diffinio cymeriad a swyddogaeth y stryd. Gall hyn helpu i arafu cerbydau, ei gwneud yn haws a mwy diogel i groesi'r ffordd a diffinio mannau i aros, a gorffwyso. Bydd defnydd da o ddeunyddiau yn helpu i arwain pobl sy'n defnyddio'r stryd, gan arwain at lai o rwystrau ar y stryd.






# O FFORDD I STRYD




SGwelyau blodau a thirweddu ar hyd y stryd
Strydoedd â choed bob ochr gyda digon o le i lwybrau cerdded a beicio
Nodweddion a chelf pyrth yn creu teimlad o gyrraedd a helpu i ddiffinio cymeriad y dref
Parc Manwerthu Glannau Dyfrdwy
Parc Manwerthu Glannau Dyfrdwy
Eglwys Sant Ethelwold
Gorllewin Ffordd Caer
Cael gwared ar rwystrau a mwy o groesfannau i annog mwy o gerdded a beicio
Defnyddio gwahanol ddeunyddiau i wahanu lleoedd
Llwybr beicio dynodedig wedi ei integreiddio â'r tirweddu

# CYFLEOEDD LLE – Y PORTH DWYREINIOL






chris jones

creu lleoedd SIR Y FFLINT

# CYFLEOEDD LLE – Y PORTH DWYREINIOL

Mae pen dwyreiniol y B5129 yn ffurfio'r prif borth i mewn i Shotton. Fodd bynnag, mae'n methu ar hyn o bryd â rhoi'r argraff gyntaf orau o'r dref na helpu i greu teimlad o gymeriad neu hunaniaeth sy'n dweud "Croeso i Shotton".

Nodweddir yr ardal ar hyn o bryd â stryd lydan sydd o dan oruchafiaeth ceir, dewisiadau gwael ar gyfer croesi a phensaernïaeth blychau mawr sydd wedi'i osod yn ôl y tu ôl i arwynebeddau mawr i barcio ceir. Canlyniad hyn yw amgylchedd gwael, o dan oruchafiaeth ceir lle nad yw cerddwyr a beicwyr yn teimlo bod croeso iddynt.

Mae cyfle fodd bynnag i droi'r stryd yn borth gwirioneddol i Shotton, gyda gwell cyfleusterau beicio, bws a chroesfannau. Gellir defnyddio tirweddu, deunyddiau a chelf gyhoeddus i groesawu pobl i'r dref a chreu teimlad unigryw o le.



**Nodwedd Porth**

Gellir defnyddio celf gyhoeddus, nodweddion a deunyddiau tirwedd i greu nodwedd porth i'r dref. Gallai hyn hefyd weld gwelliannau i wynebau adeiladau allweddol yn yr ardal megis Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy. Gall y nodweddion hyn gysylltu â threftadaeth a dyheadau Shotton i ddweud wrth bobl pwy yw Shotton ac am beth mae'n sefyll.




**Mwy o le i Bobl, Beiciau a Bysiau**

Mae'r gerbytffordd yn rhy lydan ar hyn o bryd ac wedi ei hadeiladu â chyffyrdd mawr gan arwain at le o dan oruchafiaeth ceir. Gellir lleihau'r gerbytffordd a'r cyffyrdd i helpu creu mwy o le i feiciau a bysiau. Bydd hyn yn helpu i leihau defnydd o geir a hyrwyddo ffurfiau mwy lesol o deithio..

**Gwell Dewisiadau Croesi**

Gall y gerbytffordd a'r cyffyrdd llydan ei gwneud hi'n anodd croesi'r ffordd. Mae'r bont las dros y ffordd yn ddatrysiad rhy orchestol a fydd yn cadw pobl sydd â chyfyngiadau symudedd rhag croesi. Yr unig ddewis arall yw'r Groesfan Twcan sy'n arwain pobl drwy'r traffig. Bydd cerbytffordd gulach a mwy o ddewisiadau croesi ar 'lefel y stryd' yn caniatáu ar gyfer ei gwneud yn haws i gerddwyr symud ac yn anodd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Does dim rhaid i'r rhain fod yn groesfannau safonol a gellid eu dylunio'n unswydd ar gyfer yr ardal fel eu bod yn cyfrannu at gymeriad cyffredinol y lle.

**Amgylchedd Tirwedd Llawn Cymeriad**

Er bod gan yr ardal ar hyn o bryd lecynnau o dirweddu, coed a gwrychoedd, nid yw hyn wedi cael ei ystyried mewn ffordd gyfannol. Gallai strategaeth dirweddu unigryw ar gyfer yr ardal helpu i ddiffinio cymeriad y lle ac ychwanegu rhywfaint o hunaniaeth a naws gaeedig i'r stryd – rhywbeth sydd ar goll ar hyn o bryd.



## CYFLEOEDD LLE – YR ARDAL GANOLOG






chris jones
rl.
creu lleoedd SIR Y FFLINT

## CYFLEOEDD LLE – YR ARDAL GANOLOG

Mae rhan ganolog Gorllewin Ffordd Caer, y B5129, yn fwy o ardal bontio o fewn y dref. Mae'r cymeriad yn newid o'r bensaernïaeth blychau mawr i'r dwyrain i ardal breswyl gulach, ar raddfa fwy dynol, cyn agor eto yn ardal manwerthu/masnachol cyn canol y dref. Mae'r ardal felly yn gofyn am set wahanol o ymatebion wrth droi'r ffordd yn stryd.

Dylai rhan breswyl y stryd ganolbwyntio ar arafu cerbydau a chreu mwy o le ar gyfer tirweddu a choed stryd, er mwyn helpu gwella ansawdd amgylcheddol ac aer yr ardal.

Dylai rhan fasnachol y stryd ganolbwyntio ar wneud gwell defnydd o'r gofod i fusnesau a chyfleoedd yr ardal, megis y parciau poced a phorth y bont reilffordd.



**Porth Eglwys Sant Ethelwold**

Mae Eglwys Sant Ethelwold yn adeilad allweddol yn yr ardal ac mae wedi'i lleoli ar gyffordd bwysig i ardal breswyl Shotton. Nodweddion unigryw fel y rhain sydd angen eu hamlygu a'u dathlu o fewn y stryd. Mae'r eglwys yn cynnig cyfle perffaith i greu porth eilaidd ar hyd y stryd sy'n helpu atgyfnerthu hunaniaeth a chymeriad Shotton.

**Gwell Amgylchedd**

Fel ardal sydd ag adeiladau preswyl, blaenoriaeth y stryd ddylai fod creu lle i bobl. Bydd cerbytffordd gulach yn helpu i arafu cerbydau, gan leihau'r sŵn ar hyd y stryd a chreu mwy o le i goed, gerddi glaw a thirweddu. Bydd hyn yn helpu i wella ansawdd amgylcheddol ac aer yr ardal a chreu gwell amgylchedd a lle mwy cymdeithasol i'r bobl sy'n byw yno.

**Parciau Poced**

Mae gan yr ardal ddau barc poced, sydd ymysg yr ychydig yn unig o leoedd ar hyd y stryd lle gall pobl eistedd a gorffwyso. Nid ydynt fodd bynnag yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial gan eu bod wedi eu hamgáu â waliau/gwrychoedd ac felly maent wedi eu torri oddi wrth y prif lwybrau i gerddwyr. Byddai integreiddio'r parciau hyn yn well yn dod â hwy yn fwy i'r parth cyhoeddus a dod yn rhan o'r stryd. Po fwyaf y bydd yn rhaid i bobl fynd drwyddynt y mwyaf y byddant yn cael eu defnyddio a'r mwyaf diogel y byddant.




**Porth y Bont Reilffordd**

Mae'r bont reilffordd yn borth ac yn dirnod allweddol o fewn y dref. Mae'n cynnig un o'r ychydig bwyntiau croesi rhwng dwyrain a gorllewin Shotton a dyma fydd y pwynt cyrraedd cyntaf oddi ar y trên. Mae angen i'r lle felly ddod yn gyrchfan ac yn dirnod a ddethlir o fewn y dref. Bydd gwaith i'r bont a'r twnel yn helpu ei throi yn borth unigryw ac yn helpu atgyfnerthu ymhellach gymeriad yr ardal. Dylai'r lle agored o'i amgylch fod yn amgylchedd o ansawdd uchel sy'n llecyn agored yn ei hawl ei hun ond hefyd yn fan ac iddo swyddogaeth allweddol o ran canfod y ffordd ar gyfer teithio ymlaen. Mae'r bont reilffordd a'r lle o'i chwmpas yn gyfle i arddangos cymeriad a nodweddion unigryw Shotton.



## CYFLEOEDD LLE – CANOL Y DREF



# CYFLEOEDD LLE – CANOL Y DREF

Mae canol tref Shotton yn gyrchfan allweddol fel y brif ganolfan siopa a gwasanaethau i'r gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae gan ganol y dref rai o'r adeiladau treftadaeth ac amlwg allweddol o fewn y dref. Fodd bynnag, mae'r canol yn dioddef o ddiffyg cymeriad cyffredinol a strydlun ddryslyd yr olwg, gan arwain at fod yr asedau allweddol hyn yn mynd ar goll o fewn y stryd.

Mae cyfle i greu canol tref cydnaws ac unedig sy'n hyrwyddo anghenion y busnesau a'r bobl sy'n ei ddefnyddio. Bydd hyn yn cynnwys creu amgylchedd mwy cyfeillgar i gerddwyr, annog mwy o weithgarwch trwy seddau a mannau ymestyn allan, gwella ansawdd yr amgylchedd a chreu lle mwy cymdeithasol.

Bydd strategaeth fwy cyson ar gyfer ffryntiadau siopau hefyd yn helpu i wella strydlun canol y dref, a fydd yn cael ei drafod yn yr adran nesaf.





**Y Porth Gorllewiniol**

Pen gorllewinol canol y dref yw'r porth allweddol i'r dref o Gei Connah. Unwaith mae rhywun dros y bont dros yr afonig ddeniadol, Nant Gwepra, mae canol y dref yn brin o unrhyw gymeriad na hunaniaeth. Gall defnyddio tirweddu, deunyddiau, celf gyhoeddus a gwelliannau i wynebau'r adeiladau helpu i arwyddo newid mewn cymeriad o adael Cei Connah a synnwyr o gyrraedd yn Shotton.

**Dathlu Adeiladau Allwedd**

Mae adeiladau allweddol ar hyd y stryd fel y Central Hotel, Eglwys Rivertown a Gwesty'r Clwyd yn ganolfannau cymunedol a chymdeithasol allweddol. Dylid gwella'r amgylchedd o gwmpas yr adeiladau hyn, fel eu bod yn sefyll allan yn eu cyd-destun. Gellir cyflawni hyn trwy newid mewn deunyddiau a chefndir tirwedd unigryw.

**Mwy o Seddau a Gweithgarwch**

Mae canol y dref yn dioddef o ddiffyg seddau, naill ai trwy feinciau, seddau ar hap (ymylon cynwysyddion planhigion etc) neu seddau y tu allan i gaffis. Mae hyn yn rhoi'r argraff nad yw canol y dref yn lle i aros a threulio amser ynddo. Hyd yn oed pe bai arnoch eisiau, ni allech wneud hynny, yn enwedig pobl sydd â phroblemau symudedd. Mae cyfle i wella'n sylweddol y dewisiadau eistedd o fewn canol y dref, a fydd yn dod â buddion pellach o ran creu mwy o weithgarwch a galluogi pobl i ryngweithio a chymdeithasu mwy. Dylid gwneud hyn ar y cyd â strategaeth tirwedd fel bod dewisiadau ar gyfer cysgodi, byffro rhag cerbydau a sicrhau bod rhywbeth dymunol i edrych arno.

**Gwell Amgylchedd i Gerddwyr**

Gellid gwella'n sylweddol amgylchedd canol y dref i gerddwyr. Bydd lleihad yn lled y gerbytffordd, yn enwedig ar gyffyrdd a chael gwared ar y rhwystrau yn caniatáu i bobl symud yn fwy rhydd ar hyd y stryd. Mae llwyfannau dyrchafedig a chroesfannau Copenhagen lle mae'r llwybr troed yn parhau'n uniongyrchol ar draws cyffordd yn lleihau effaith y car a gwella profiad y cerddwr. Po fwyaf y caiff pobl eu hannog ar hyd y stryd, i eistedd a chymdeithasu, yr hiraf y byddant yn aros a'r mwyaf o arian y byddant yn ei wario.spend.

## CYFLEOEDD LLE – COD DYLUNIO I SHOTTON

Fel y trafodwyd yn gynharach, y B5129, Gorllewin Ffordd Caer yw'r ffordd allweddol drwy'r dref ac mae'n gwasanaethu amrywiaeth helaeth o swyddogaethau i'r gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae fodd bynnag yn brin o gymeriad na synnwyr o hunaniaeth ac o'r herwydd mae'n dod yn 'nunlle' o fewn Shotton.

Un o nodau allweddol y ddogfen hon yw troi'r B5129 o fod yn ffordd i stryd, ac yn lle, gyda'i gymeriad ei hun sy'n adlewyrchu Shotton, ei hanes a'i ddyfodol. Mae cyfle felly i greu Cod Dylunio a all helpu i sicrhau y bydd newidiadau a chynigion dylunio, wrth iddynt gael eu cyflwyno, yn adlewyrchu gweledigaeth a hunaniaeth gyffredinol y dref a sicrhau y byddant o'r ansawdd a'r safonau uchafl.

Rhan o'r Cod Dylunio hefyd fydd helpu i greu strydlun a chymeriad ystyrlon, trwy ddefnyddio ei deunyddiau, tirlunio ac egwyddorion dylunio. Gall helpu hefyd i greu canllawiau dylunio cyson ar gyfer ffryntiadau siopau, gyda'r nod o leihau'r gymysgedd anhrefnus bresennol o arddulliau fel eu bod yn fwy cydnaws â'i gilydd. Mae adran ddadansoddi'r ddogfen hon yn dangos bod llawr cyntaf llawer o'r siopau hyn yn gyfoethog o ran dyluniad a manylder pensaernïol. Mae hyn fodd bynnag yn cael ei golli ar hyn o bryd oherwydd natur brysur y llawr gwaelod. Mae angen i'r nodweddion hyn cael eu hamlygu a'u dathlu o fewn y stryd gan ei fod yn creu cyswllt ystyrlon a phresennol â threftadaeth Shotton.

**Creu canllawiau dylunio i'r holl stryd i helpu egluro hunaniaeth a gweledigaeth Shotton**

**Pennu manylion y deunyddiau a'r tirweddu i'w defnyddio er mwyn creu strydlun gyson a chydnaws**

**Canllawiau tu blaen siopau i annog symud at ddyluniad mwy cyson sy'n lleihau blerwch**

**Datblygu strategaeth lle caiff adeiladau allweddol, ffryntiadau a manylion llawr cyntaf eu gwella a'u dathlu o fewn y stryd**








## CYFLEOEDD LLE – CROESFFORDD O GYSYLLTEDD

Mae lleoliad Shotton ar lan Afon Dyfrdwy, nifer o lwybrau cenedlaethol a phellter hir a gorsaf drenau sy'n cysylltu Arfordir Gogledd Cymru â'r Gororau, yn unigryw. Mae angen manteisio mwy ar agosrwydd canol y dref at yr orsaf drenau, gyda buddsoddiad arfaethedig Trafnidiaeth Cymru yn y gyfnewidfa a chryfhau'r gwaith o hyrwyddo Shotton ar Lwybr Arfordir Cymru, llwybrau cenedlaethol Sustrans, llwybr Porth y Mileniwm Caer a'r rhwydwaith teithio llesol lleol.

Byddai buddsoddiad seilwaith Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol yn gwella hygyrchedd rhwng y gorsafoedd Lefel Uchel a Lefel Isel ac yn rhoi gwell ffryntiad ar gyfer gollwng a chodi teithwyr. Mae ei leoliad gerllaw Afon Dyfrdwy ar gyfer ymwelwyr hamdden yn gyfle y gall Shotton fanteisio arno gyda chynnig mwy amrywiol o fwyd a diod yn ogystal â hyrwyddo'r dref fell le cyfeillgar i gerddwyr a beicwyr. Gall siopau beiciau lleol, pwyntiau poteli dŵr, stondinau diogel i barcio beiciau, gorsafoedd atgyweirio beiciau a chyfleusterau eraill gefnogi anghenion ymwelwyr lleol ac ymwelwyr dydd.

Mae angen i'r bont reilffordd roi cynfas ar gyfer hyrwyddo cysylltedd y lle, ei agosrwydd at Afon Dyfrdwy, natur lleol, cerdded, beicio a bod ar groesffordd rheilffordd. Hyn ddylai ffurfio hunaniaeth Shotton.

**Gwelliannau Trafnidiaeth Cymru i'r Orsaf Drenau yn y dyfodol a fydd yn gwella hygyrchedd a chysylltiadau**



**Gwell arwyddion ar gyfer llwybrau pellter hir o Afon Dyfrdwy i ganol tref Shotton**



**Cefnogaeth busnesau i gynhyrchion a phrofiadau sy'n ymwneud â cherdded/beicio**



**Bywiogi mynedfa porth y Bont Reilffordd mewn modd sy'n hyrwyddo cysylltedd a'r agosrwydd at Afon Dyfrdwy a llwybrau hamdden**

## CYFLEOEDD LLE – CALON GYMDEITHASOL

Mae hanes balch i fywyd cymunedol Shotton yn sgil ei rôl flaenorol mewn cynhyrchu dur a diwydiannau trwm eraill. Gan fod y tirwedd diwydiannol wedi newid, mae wedi colli ei galon gymdeithasol trwy y lleihad yn ei glybiau a sefydliadau. O gyfuno hyn â'r ffaith fod y brif Ffordd Caer o dan oruchafiaeth traffig, mae angen ailddarganfod ac ailfeddiannu pwyslais cymdeithasol i'w gymuned.

Gall prosiect adnewyddu Eglwys Riverdown wireddu'r angen hwn gan ei bod mewn lleoliad canolog, yn sefydliad gweithgar ac yn gynhwysol i amrywiaeth o weithgareddau a defnyddwyr. Mae sut mae'r adeilad yn cysylltu â'r parth cyhoeddus sy'n ei amgylchynu yn bwysig, gydag angen am ymdrin â'r ganolfan gymunedol hon mewn modd integredig fel ei bod mewn amgylchedd stryd sy'n gyfeillgar at bobl.

Dylid datblygu cyfleoedd eraill i gysylltu cyfleusterau cymdeithasol o fewn cymdogaethau Shotton trwy Deithio Llesol a phrosiectau a rhaglenni buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol. Dylai'r rhain gysylltu hefyd â byw llesol, digwyddiadau cymunedol, prosiectau gwyrddu a gwirfoddoli.

**Cefnogi prosiectau canolfannau cymunedol megis prosiect Eglwys Riverdown sy'n darparu swyddogaeth gymdeithasol a llesiant**

**Sicrhau bod y parth cyhoeddus yn gymdeithasol, yn annog treulio amser ynddo a'i fod yn amgylchedd sy'n teimlo'n ddiogel, apelgar ac yn teimlo'n dda i fod ynddo**

**Sicrhau bod buddsoddiad mewn teithio llesol yn cysylltu asedau a chyfleusterau cymunedol fel eu bod yn hygyrch ac yn cael eu defnyddio'n helaeth**







# CYFLEOEDD POBL – HUNANIAETH I SHOTTON

Mae balchder Shotton yn ei orffennol o gynhyrchu dur, diwydiannau trwm eraill a bod yn dref reilffordd yn sylfeini allweddol i'w DNA. Mae symud oddi wrth ei orffennol yn anodd ond er mwyn i ganol y dref ffynnu mae angen iddo addasu ei hun ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr.

Nid rhywbeth sy'n ymwneud â logo a slogan yw hunaniaeth ond ymgyrch sy'n gydnaws â synnwyr o'r lle a'i bobl. Mae angen iddo ddyrchafu ei asedau unigryw megis bod y dref ar lan Afon Dyfrdwy, ei chysylltedd, mynediad at natur a chwarae, Stryd Fawr sy'n hwylus ac ar drothwy mannau cyflogaeth, hamdden a cham i ffwrdd o Gaer.

Mae angen mabwysiadu dull cyfannol o greu hunaniaeth sy'n cael ei ffurfio trwy gymysgedd o ddefnyddiau canol y dref, mannau cymdeithasol, strydoedd sy'n rhoi blaenoriaeth i bobl, sy'n rhannol yn ffisegol a rhannol yn hyrwyddol. Mae angen i'r elfen ffisegol ganolbwyntio ar god dylunio, paled lliwiau, arwyddion a manylion eraill sy'n dod â hunaniaeth at ei gilydd a fydd yn gydnaws â set o werthoedd. Gall ffyrdd eraill o gyfleu hunaniaeth ddigwydd trwy gelf gymunedol, prosiectau cymunedol llai sy'n dehongli diwylliant a threftadaeth lleol y lle.

Gall elfennau hyrwyddo hunaniaeth fod yn ffurf ymgyrch canol tref a allai fentora a hyfforddi busnesau bach mewn materion sy'n amrywio o greu'r profiadau iawn mewn gweithle i weithgarwch digidol. Mae ymgyrch gymunedol ehangach ar brynu/siopa/bwyta/cyfarfod yn "lleol" hefyd yn ffurfio rhan o hunaniaeth ar y cyd sy'n adeiladu perthynas a chynnig ystyrlon. Mae prosiectau cyfamserol a threialu gweithgarwch newydd mewn lleoedd gwag neu a danddefnyddir hefyd yn llwyfan da ar gyfer profi cynhyrchion a defnyddiau newydd er mwyn ddeall os ydynt yn diwallu anghenion lleol ac os ydynt yn ffurfio rhan o'i hunaniaeth.

**Cod dylunio i ganol y dref sy'n cefnogi paled tref, dyluniad blaen siopau, arwyddion, etc**

**Mentrau brandio o dan arweiniad y gymuned – prosiectau celf cymunedol, murluniau, y bont reilffordd, ymgyrch ffotograffiaeth leol a mentrau eraill**

**Cefnogaeth busnesau canol y dref sy'n hyrwyddo neges "leol" a synnwyr o le/cymuned trwy dull cyfunol sydd ar y stryd ac yn ddigidol**








## CYFLEOEDD POBL – GWEITHGARWCH CYMUNEDOL

Mae rôl y gymuned yn Shotton yn allweddol i'w synnwyr o berthyn a sut mae pobl yn ymwneud â'u bywydau o ddydd i ddydd.

Mae rhwydweithiau cymunedol a rhannu gwybodaeth yn helpu trigolion i ddeall beth sydd ar garreg eu drws, sy'n helpu cyfeirio presenoldeb, gweithgarwch, gwariant, teyrngarwch a chylch o dwf a llesiant lleol.

Yn gysylltiedig â'r thema calon gymdeithasol, mae angen hefyd am ganolfannau cymunedol o fewn canol trefi sy'n darparu gwasanaethau, digwyddiadau a gweithgareddau cymorth llesiant, a dangos y ffordd at wasanaethau. Maent hefyd yn rhoi symbyliad i fusnesau cymunedol a chymdeithasol a all lenwi bylchau mewn gwasanaethau penodol ac eiddo sy'n wag neu a danddefnyddir.

Mae gwirfoddoli'n chwarae rhan bwysig mewn cynnal canol trefi fel Shotton gyda chyfleoedd i helpu gyda chodi sbwriel, tacluso, plannu cymunedol, teithiau cerdded tywysedig, digwyddiadau stryd a mwy.

Mae gweithgarwch cymunedol yn ffurfio rhan o hunaniaeth Shotton hefyd, gan roi croeso cynnes a theimlad o bethau'n digwydd yn y gymuned a'r Stryd Fawr.

**Cyfleoedd rhwydweithiau a phartneriaethau cymunedol**

**Pwyntiau gwybodaeth i'r cyhoedd – ar y stryd ac ar-lein**

**Gwirfoddoli – cefnogi, recriwtio a chydlynu**

**Cymorth i ddigwyddiadau a gweithgareddau canol y dref**







# CYFLEOEDD POBL – BYW LLESOL

Gall datblygu parth cyhoeddus llesol sy'n hygyrch, cysylltiedig, cynhwysol ac addasadwy i bob angen arwain at fyw llesol dyddiol. Mae natur gryno Shotton sy'n mynd â chi o'ch cymdogaeth i'ch parc, i ganol eich tref, at lannau Afon Dyfrdwy o fewn 15 i 20 munud yn gyfle allweddol i bobl wneud hyn.

Gellir gwireddu gweithgarwch allgymorth cymunedol i gynyddu cyfraddau cyfranogi mewn gweithgareddau corfforol trwy glybiau cerdded, llogi beiciau, prosiectau tyfu cymunedol a thrwy weithgareddau o dan do megis ioga, dosbarthiadau ymarfer corff yn ogystal â champfeydd gwyrdd awyr agored.

Mae'r newid dulliau teithio ar gyfer teithiau hamdden, gwaith ac addysgol o gerbydau i gerdded a beicio i gael eu hyrwyddo ar y cyd â theithio llesol a buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus.

**Gweithgarwch prosiectau Gogledd Cymru Actif**

**Datblygu rhwydweithiau teithio llesol yn cysylltu â chyfleoedd cysylltedd**

**Gwaith allgymorth cymunedol sy'n cefnogi cyfraddau cyfranogi uwch gyda grwpiau sefydledig, y rhai anodd eu cyrraedd a'r gymuned ehangach**

**Treialu gweithgareddau sy'n isel o ran cost, yn hygyrch ac sy'n dod â phobl i ganol y dref megis cerdded, beicio a gwyrddu lleoedd**







## CYFLEOEDD POBL – CYMUNED WERDD

Mae cyfleoedd i integreiddio seilwaith gwyrdd a rôl gwyrddu/bioamrywiaeth o fewn y lle ehangach yn allweddol er mwyn gwella'r synnwyr o le, llesiant lleol a hefyd i fynd i'r afael â heriau argyfwng hinsawdd.

Mae gwyrddu strydoedd canol trefi sy'n creu ffurf a strwythur yn flaenoriaeth allweddol mewn ychwanegu at y parth cyhoeddus, lleoedd i eistedd yn ogystal â darparu cysgod rhag yr haul, amsugno dŵr glaw ffo a chefnogi ffurfiau eraill o addasiadau a gwydnwch hinsawdd. Gall strydoedd hefyd hyrwyddo tyfu lleol, blychau perlysiau a chardiau ryseitiau i hyrwyddo'r defnydd o lysiau tymhorol a'r defnydd o gadwyni cyflenwi lleol.

Mae angen i lecynnau gwyrdd, parciau, caeau hamdden a chwaraeon, llwybrau, lleiniau ac arwynebeddau eraill o wyrddni gael eu cysylltu gyda'i gilydd fel y gall trigolion lleol fynd atynt a'u defnyddio. Mae cyfleoedd i gyflwyno plannu coed ychwanegol, ardaloedd peillio a phlannu yn y ddaear yn ychwanegu at fioamrywiaeth leol a chadwraeth natur. Dylid archwilio cyfleoedd am dyfu cymunedol, lle caiff grwpiau eu ffurfio a lle gallant reoli tir a danddefnyddir i ddibenion cynhyrchiol. Gall hyn chwarae rhan o'r presgripsiynu cymdeithasol sy'n gysylltiedig â phrosiectau iechyd cymunedol.

**Dull seiliedig ar le o ymdrin â chanol y dref a Ffordd Caer sy'n integreiddio seilwaith gwyrdd o fewn gwelliannau dylunio i'r stryd**



**Canfod mesurau addasu a lliniaru newid hinsawdd trwy seilwaith gwyrdd**



**Cyfleoedd i ychwanegu at yr ardaloedd gwyrdd presennol sy'n gwella bioamrywiaeth leol, gweithgarwch a llesiant cymunedol**



**Prosiectau sy'n canolbwyntio ar iechyd cymunedol trwy fentrau plannu a thyfu**

## CYFLEOEDD POBL – UWCHSGILIO'R GYMUNED

Gall gweithgarwch a buddsoddiad seiliedig ar le agor cyfleoedd hyfforddiant ac uwchsgiliio i drigolion, busnesau a sefydliadau lleol.

Gall mannau a danddefnyddir mewn canol trefi gynnig cyfleoedd i ysgolion cyfun lleol, colegau addysg bellach a sefydliadau eraill dreialu syniadau a mentrau newydd ar gyfer marchnad nas diwellir. Gall hyn fod yn gysylltiedig â gweithgarwch cyfamserol a dros dro yn ogystal â digwyddiadau stryd.

Gall colegau addysg bellach lleol ddatblygu cysylltiadau hefyd gyda rhaglenni buddsoddi mewn adfywio gyda phrentisiaethau mewn gwaith brics, saernïaeth a gwaith coed, plymio a gwresogi a chrefftau eraill. Dylid hefyd annog hyrwyddo cadwyni cyflenwi lleol sy'n cylchredeg pryniannau a thwf lleol. Dylid datblygu hyfforddiant a phrentisiaethau mewn gwallt a harddwch gyda chyflogwyr lleol ar y Stryd Fawr.

**Cymalau cymdeithasol mewn prosiectau a buddsoddiadau adfywio**

**Meithrin cysylltiadau gydag ysgolion lleol, colegau addysg bellach a darparwyr addysg eraill i dreialu gweithgareddau o fewn lleoliad canol tref**

**Darparu prentisiaethau crefftau sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn adfywio ffisegol**







## GWELEDIGAETH O LWYDDIANT

Mae'r angen i ddeall sut i ddiffinio llwyddiant yn bwysig pan ydych chi'n galluogi a gweithredu newid mewn lle fel Shotton. Mae'n helpu deall y canlyniadau'r ydych yn eu cyrchu a'r broses sydd arnoch ei hangen er mwyn eu cyrraedd. Mae gweledigaeth o lwyddiant yn dda hefyd ar gyfer symbylu ac uno o gwmpas nod cyffredin, gan adeiladau ymddiriedaeth a pherthynas. Mae'n bwysig hefyd gallu dangos i'r sefydliadau hynny'r ydych yn ariannu prosiectau eich bod yn cyrraedd eich allbynnau a chanlyniadau a dangos enillion ar fuddsoddiad. Dengys y diagram enghreifftiau o allbynnau a chanlyniadau yn ôl thema, sy'n ffurfio rhan o fframwaith gwerthuso y byddai partneriaeth ar sail lle yn ei ddefnyddio i fonitro cynnydd.

### O Ffordd i Stryd

**ALLBYNNAU**

- Nifer o symudiadau cerdded/beicio
- Metrau llinellol o lwybrau teithio llesol a gafodd eu creu neu eu gwella
- Cyfanswm arwynebedd o seilwaith gwyrdd a gafodd ei ychwanegu neu wella o ganlyniad i'r cymorth
- Cyfrifon cerbydau ar y B5129
- Nifer o deithwyr bws
- Cyfrif ansawdd aer
- Cyfradd troedio cerddwyr
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth defnyddiau a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd gyda chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr canol y dref
- Gwelliant mewn cyfraddau troseddu o fewn canol y dref

**CANLYNIADAU**

- Mwy o deimlad o le a chyrchfan leol
- Gwell iechyd a llesiant i'r gymuned leol
- Gwell symudedd ar draws yr holl gymuned
- Cryfhau'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd
- Cynyddu teimlad o ddiogelwch cymunedol
- Gwella teimlad o groeso a chydlyniant cymunedol
- Twf economaidd a chynaliadwyedd lleol



chris jones · rl. · creu lleoedd SIR Y FFLINT

## Croesffordd o Gysylltedd

### ALLBYNNAU

1. Nifer o symudiadau cerdded / beicio
2. Metrau llinellol o lwybrau teithio llesol a gafodd eu creu neu eu gwella
3. Nifer teithwyr trên i Shotton ac o Shotton
4. 4Nifer teithwyr bws
5. Cynnydd y defnydd o lwybrau pellter hir (Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Beicio Cenedlaethol_
6. Cyfrif ansawdd aer

### CANLYNIADAU

1. Gwell symudedd ar draws yr holl gymuned
2. Gwell iechyd a llesiant i'r gymuned leol
3. Mwy o wydnwch newid hinsawdd
4. Twf economaidd a chynaliadwyedd lleol

## Cod Dylunio i Shotton

### ALLBYNNAU

1. Nifer o fusnesau sy'n derbyn cymorth ariannol
2. Nifer o safleoedd busnes effeithlon o ran ynni
3. Nifer o fusnesau sy'n derbyn cymorth busnes / hyfforddiant / mentora
4. Amrywiaeth defnyddiau a gweithgareddau canol y dref
5. Cyfradd eiddo gwag
6. Twf busnesau lleol
7. Nifer o bobl sy'n economaidd weithgar
8. Nifer o bobl sy'n gyflogedig
9. Cyfradd troedio cerddwyr
10. Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
11. Gwariant defnyddwyr canol y dref
12. Bodlorwydd gyda chanol y dref
13. Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr canol y dref

### CANLYNIADAU

1. Gwell symudedd ar draws yr holl gymuned
2. Gwell iechyd a llesiant i'r gymuned leol
3. Cryfhau'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd
4. Twf economaidd a chynaliadwyedd lleol

## Calon Gymdeithasol

### ALLBYNNAU

1. M2 o gyfleusterau cymunedol newydd sydd wedi eu gwella
2. Nifer o ddefnyddwyr adeiladau cymunedol
3. Nifer o grwpiau cymunedol a gefnogwyd
4. Nifer o grwpiau cymunedol newydd a ffurfiwyd
5. Nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant
6. Nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn gwirfoddoli
7. Nifer o sefydliadau sy'n derbyn cymorth anariannol
8. Nifer o bobl sy'n mwynhau gwell cynhwysiant cymdeithasol

### CANLYNIADAU

1. Mwy o deimlad o gydlyniant a chroeso cymunedol
2. Mwy o weithio rhwng cenedlaethau a phartneriaethau
3. Gwell gweithgarwch cymunedol / mentrau cymdeithasol
4. Gwell iechyd a llesiant i'r gymuned leol
5. Teimlad cryfach o ddiogelwch cymunedol

## Hunaniaeth i Shotton

### ALLBYNNAU

- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr canol y dref
- Cyfradd troedio cerddwyr
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth defnyddiau a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Nifer o bobl sy'n economaidd weithgar
- Nifer o bobl sy'n gyflogedig

### CANLYNIADAU

- Mwy o deimlad o le a chyrchfan leol
- Mwy o deimlad o groeso a chydlyniant cymunedol
- Twf economaidd a chynaliadwyedd lleol

## Gweithgarwch Cymunedol

### ALLBYNNAU

1. Nifer o sefydliadau cymunedol presennol a gefnogwyd
2. Nifer o grwpiau neu sefydliadau newydd a gafodd eu creu
3. Nifer o wirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn bywyd cymunedol
4. Nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau rhwydweithio
5. Nifer o brosiectau cymunedol a gefnogwyd
6. Nifer o sefydliadau sy'n derbyn cymorth anariannol
7. Nifer o bobl sy'n profi gwell cynhwysiant cymdeithasol

### CANLYNIADAU

1. Gwella capasiti o fewn y gymuned leol
2. Mwy o weithio a rhwydweithio rhwng grwpiau a'i gilydd
3. Gwell gweithio mewn partneriaeth
4. Sefydliadau sy'n fwy hyfyw a chynaliadwy

## Byw Llesol

### ALLBYNNAU

1. Nifer o bobl leol sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
2. Nifer o grwpiau cymunedol sy'n cymryd rhan
3. Nifer o bobl sy'n profi gwell iechyd a buddion llesiant
4. Tir (m2) a adenillwyd at ddefnydd cymunedol cynhyrchiol
5. Mentrau llinellol o lwybrau teithio llesol a gafodd eu creu neu eu gwella
6. Mwy o gerdded a beicio

### CANLYNIADAU

1. Lleihad mewn anghydraddoldeb iechyd a llesiant
2. Agor llwybrau at ddysgu, cyflogaeth a gweithgareddau eraill

## Cymuned Werdd

### ALLBYNNAU

1. Cyfanswm arwynebedd o seilwaith gwyrdd a gafodd ei ychwanegu neu ei wella o ganlyniad i gymorth
2. Nifer o weithgareddau cymunedol gwyrdd a gefnogwyd
3. Nifer o bobl leol sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch gwyrddu
4. Nifer o grwpiau cymunedol sy'n cymryd rhan
5. Nifer o bobl sy'n profi gwell iechyd a buddion llesiant
6. Cyfrif ansawdd aer

### CANLYNIADAU

1. Lefelau uwch o fioamrywiaeth leol
2. Cryfhau'r gallu i wrtsefyll newid hinsawdd
3. Lleihad mewn anghydraddoldeb iechyd a llesiant
4. Agor llwybrau at ddysgu, cyflogaeth a gweithgareddau eraill

## Uwchsgilio'r Gymuned

### ALLBYNNAU

- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr canol y dref
- Cyfradd troedio cerddwyr
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth defnyddiau a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Nifer o bobl sy'n economaidd weithgar
- Nifer o bobl sy'n gyflogedig

### CANLYNIADAU

- Mwy o deimlad o le a chyrchfan leol
- Mwy o deimlad o groeso a chydlyniant cymunedol
- Twf economaidd a chynaliadwyedd lleol

## FFYRDD O WEITHIO

**Datblygu a Gweithredu**

Mae gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae sefydliadau strategol a lleol yn dod â'u hamcanion unigol eu hunain i ffurfio set o gynigion ar y cyd a fydd yn elwa ar ei gilydd, ac yn bwysicach, o fudd i ganol tref Shotton a'r cymdogaethau o'i gwmpas. Mae'r cyfleoedd sydd o fewn y weledigaeth a'r strategaeth hon yn gofyn am gyfuniadau gwahanol o bartneriaid, adnoddau ac amserlen ar gyfer eu datblygu a'u gweithredu.

Mae ffactorau allweddol gweithredu llwyddiannus wrth Greu Lleoedd yn cynnwys:

- Deall cryfderau unigol gan gynnwys gwybodaeth, arbenigedd ac asedau ffisegol a sut y gellir cydgyfeirio'r rhain.
- Cyfathrebu a chydgysylltu ar lefel strategol ac wrth weithredu.
- Gweithio o fewn cod dylunion cyffredin sy'n sicrhau cysondeb mewn amgylchedd adeiledig a pharth cyhoeddus ac sy'n cyrraedd targedau'n ymwneud â newid hinsawdd a chynaliadwyedd.
- Cysylltu anghenion trigolion lleol ag amrywiol lwybrau at ddysgu, iechyd a llesiant, gweithgarwch corfforol a chyflogaeth.
- Cyflwyno hunaniaeth unedig i le fel Shotton, gan barchu hunaniaeth sefydliadau unigol.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd eisoes wedi cychwyn dull partneriaeth o weithio ers iddo adnabod yr angen am dull cydweithredol o Greu Lleoedd mewn gwahanol ganol trefi yn Sir y Fflint ym mis Mehefin 2022.


Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Lleoedd, sy'n rhan o strwythur llywodraethu'r Grŵp Adferiad Economaidd. Diben y grŵp yw meddwl, cynllunio a gweithredu blaenoriaethau mewn modd cydlynus o fewn canol tref o ran yr amgylchedd adeiledig gan gynnwys ailddatblygu neu wella adeiladau, gwelliannau i'r parth cyhoeddus, seilwaith gwyrdd a mentrau teithio llesol. Mae gan y grŵp rôl hefyd wrth drafod a chytuno ar flaenoriaethau ariannu, gan gynnwys gwneud penderfyniadau wrth ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor i weithredu Creu Lleoedd.


Cafodd adolygiad o'r Grŵp Lleoedd ei gwblhau, a chanfuwyd cyfleoedd i wella'i effeithiolrwydd cyffredinol gan gynnwys: i) Gwella cydweithio a chydlynu Creu Lleoedd ar draws y cyngor ii) datblygu rhaglen waith flynyddol sy'n edrych yn ôl ar weithgarwch creu lleoedd sy'n cael ei arwain gan wahanol wasanaethau / swyddogion ar draws y cyngor a gwella'r ffordd o fonitro ac adrodd gweithgarwch Creu Lleoedd a'r graddau mae wedi gweithredu'n unol â Chynlluniau Creu Lleoedd a gymeradwywyd.

Mae Sir y Fflint hefyd wedi sefydlu grŵp gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n ymestyn dros amrywiaeth o gyrff a sefydliadau allanol yn bennaf sydd ag elfen o ganolbwyntio ar bobl yn eu darpariaeth. Caiff rhai gwasanaethau mewnol Cyngor Sir y Fflint eu cynrychioli hefyd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, ymysg sefydliadau eraill.

Wrth dyfu'r dull partneriaeth hwn, mae angen i'r Cynllun Creu Lleoedd ystyried grwpiau cymunedol lleol ar lawr gwlad yn ogystal â'r sector busnes lleol, fel bod cynghrair deg yn cael ei ffurfio rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol / gwirfoddol. Bydd angen trafod pellach rhwng sefsydliadau ynghylch ffurf y bartneriaeth hon, fel bod ganddi ddiben, nodau ac amcanion, y raddfa iawn o weithredu, gwerthoedd a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt. Byddai angen cynllunio partneriaeth o'r fath fel ei bod yn:

- Cefnogi, galluogi a chydgyflawni gweithredu ar sail lle yn Shotton
- Darparu lle cyffredin i sefydliadau rannu syniadau ac atebion
- Hyrwyddo Shotton o fewn a'r tu allan i'r gymuned leol, a
- Gwneud y lle yn well ar hyn o bryd ac i genedlaethau'r dyfodol.





creu lleoedd
SIRYFFLINT

Roberts Limbrick

chris jones